# Y DINESYDD

*PAPUR CYMRAEG CAERDYDD A'R CYLCH* GORFFENNAF–AWST 1976 RHIF 32


# CROESO I 1984!

**RHIFYN 'STEDDFOD ABERTEIFI**

**O'r diwedd, mae gobaith y cawn weld datblygiadau gwirioneddol adeiladol mewn addysg Gymraeg yn y sir hon yn y dyfodol agos. Bron flwyddyn wedi'r cyfarfod tyngedfennol rhwng rhieni Ysgol Gymraeg Bryntaf a Chyfarwyddwr Addysg De Morgannwg, Mr Fred Adams, pan roddodd y Cyfarwyddwr eli ar friwiau Bryntaf drwy son am greu rhagor o ysgolion Cymraeg yng Nghaerdydd (*Y Dinesydd*, Gorffennaf-Awst 1976), mae argymhellion pendant er sicrhau'r cam pwysig hwn ymlaen wedi gweld golau ddydd.**

### Tair Ysgol

Ar yr 17eg o Fehefin, yng nghyfarfod Pwyllgor Ysgolion Cyngor Sir De Morgannwg, derbyniwyd cynllun y Cyfarwyddwr Addysg, fel sail i ymgynghori pellach. Arfaethir sefydlu ysgolion cynradd Cymraeg yn ysgolion y Coed Glas (Llanishen), 1977, ac Eglwys Wen (Yr Eglwys Newydd) a Peter Lea (Y Tyllgoed) ym 1978, pan fyddai ysgol bresennol Bryntaf yn cau. Byddai hyn yn bosibl yn y lleoedd yma am fod nifer y plant yn gostwng, fel y mae mewn llawer ysgol arall. Bydd yr ysgolion iau Saesneg eu cyfrwng yn ddigon mawr i allu derbyn y babanod hefyd erbyn y blynyddoedd a nodir, gan ryddau'r ysgolion babanod presennol i'w defnyddio gan y tair ysgol Gymraeg.

### Ysgol Uwchradd

Oherwydd yr un duedd tuag i lawr yn y niferoedd, bydd lle yn Ysgol Uwchradd Glantaf, sydd eisoes yn rhannol wag yn ôl a ddywedir, i ddechrau sefydlu Ysgol Uwchradd Gymraeg ynddi ym 1978. Bydd hon yn broses raddol a fydd yn caniatau i'r plant a fydd eisoes yn yr ysgol bresennol i gwblhau eu haddysg yn nhrefn naturiol pethau, tra bydd yr elfen Gymraeg yn yr ysgol yn chwyddo o flwyddyn i flwyddyn nes bydd y trawsnewid wedi ei gwblhau. Dyna'n union a ddigwyddodd yn hen Ysgol Ramadeg Ystalafera pan sefydlwyd yr Ysgol Uwchradd Gymraeg yno ychydig flynyddoedd yn ôl. Ymhen fawr amser roedd pob un o'r plant a oedd yno eisoes wedi cyrraedd oed ymadael, a'r ysgol wedi troi'n Ysgol Uwchradd Gymraeg lewyrchus.

### Glantaf yn rhy fach?

Does 'na'r un lle i amau na fydd yr un peth yn digwydd yng Nglantaf, a bwrw mai yno y sefydlir yr ysgol newydd. Yn wir, y broblem yw a fydd Glantaf, cyn bo hir iawn, yn ddigon mawr i allu rhoi addysg uwchradd ddwyieithog i bawb a'i mynn o blith plant De Morgannwg. Ar hyn o bryd, mae 921 o blant mewn Ysgolion Cynradd Cymraeg yn y sir, a rhyw gant y flwyddyn yn mynd i Ysgolion Uwchradd Rhydfelen a Llanharri ym Morgannwg Ganol. Ond erbyn 1978, disgwylir y bydd hynny'n cynyddu i ryw 150 y flwyddyn, ac erbyn 1982, gallai fod yn 270. Golygai hyn ysgol uwchradd o dua 1,500 o blant, a byddai'r gost o anfon yr holl blant yma allan o'r sir i Forgannwg Ganol, fel y gwneir ar hyn o bryd, yn aruthrol.

### Cwblhau erbyn 1984

Sut bynnag, ni fydd y broblem honno'n codi gan fod Morgannwg Ganol eisoes wedi dweud y bydd yn gwrthod derbyn y plant yma wedi 1978. Rhaid darparu ar eu cyfer felly o fewn Sir De Morgannwg — am gost llawer llai na'r hyn a werir ar hyn o bryd. Mae'r ddadl economaidd o blaid y cynllun newydd yn un gref dros ben. Amcangyfrifir y cynilid £20,000 ym 1978/79 o'i weithredu, ac y bydd y swm a gynilir erbyn i'r cynllun gael ei weithredu'n llawn ym 1984 yn £137,000. Hedd i lwch George Orwell! Rhywbeth i edrych ymlaen ato yw r flwyddyn honno o ran y Gymraeg yn Ne Morgannwg!



*GERAINT JARMAN, bardd, dramodydd, actor — a chanwr pop. (Gweler tud. 9.)*

### Gwrthwynebiad

'Fydd y cynllun, fel popeth newydd (neu bopeth sy'n ymwneud â'r Gymraeg o leiaf!) ddim heb ei wrthwynebwyr wrth gwrs, a gellir disgwyl berw o haeriadau rhagfarnllyd ac anwybodus yn ei erbyn yn y wasg ac ar yr awyr yn ystod y misoedd nesaf. Ond eisoes dangosodd y Parch. Bob Morgan, Cymro di-Gymraeg o Drelai, y ffordd i ni wrth ateb rhai o'r prif wrthwynebwyr yn gadarn yng nghyfarfod y Pwyllgor Ysgolion ar yr 17eg o Fehefin. Rhaid sicrhau ymdrech nerthol yn awr ar ran Cymdeithas Rieni Ysgol Bryntaf ac ysgolion Cymraeg eraill y sir, a phawb sy'n cefnogi'r iaith i fynd â'r maen i'r wal. Dylai geiriau Cadeirydd y Pwyllgor Addysg, Mr Emyr Currie Jones, fod yn galondid mawr i ni i gyd yn yr ymdrech honno: "Rŷn ni'n benderfynol o sicrhau darpariaeth addas ar gyfer addysg Gymraeg yn y sir gyda'r chwalu a'r anghyfleustra lleiaf posibl."

GOHEBYDD ARBENNIG


**Cyngor Celfyddydau Cymru**

GWOBRAU: £300, £200, £100

*Amodau a manylion llawn oddi wrth:*
*Y Swyddog Llenyddiaeth, Cyngor Celfyddydau Cymru, 9 Stryd yr Amgueddfa, Caerdydd, CF1 3NX.*
*Tel. 0222/394711*

# GOLYGYDDOL

Felly mae'r Saesneg ar drai yn Ne Morgannwg, a'r Gymraeg yn dechrau ennill y dydd! Wel, gorddweud rhyw ychydig hwyrach, ond yn sicr mae'r cynnydd parhaol yn y galw am addysg Gymraeg i blant y sir, yn wyneb lleihad sylweddol yn nifer disgyblion ysgol yn gyffredinol yn galonogol, a dweud y lleiaf.

Yn bwysicach na hynny hyd yn oed, y mae'n ddadl ddiymwad y gall y Cyfarwyddwr Addysg a Phwyllgor Ysgolion Cyngor De Morgannwg ei defnyddio o blaid darparu mwy o ysgolion Cymraeg yn y dyfodol agos. Ac, am unwaith, mae hyd yn oed y ddadl economaidd o'n plaid!

Gair o rybudd cyn ymollwng i iwfforia llwyr. Na foed i ni gymryd buddugoliaeth yn ganiataol. Eisoes, mae'r gwrthwynebwyr yn ymgasglu: mae llywodraethwyr Ysgol Glantaf a Chymdeithas Rieni ac Athrawon yr ysgol eisoes yn ymgyrchu yn erbyn troi'r ysgol yn ysgol uwchradd Gymraeg, ac y mae nifer o gynghorwyr De Morgannwg eu hunain yn elyniaethus i'r holl syniad, ac yn datgan eu gwrthwynebiad drwy ddadleuon megis yr un sy'n honni na ellir cael ysgolion Cymraeg ond ar draul cyfleusterau addysgiadol i blant methiedig.

Ond dyna ni — ni ellir gwneud dim byd dros y Gymraeg ond ar draul ysbytai/gwasanaethau cymdeithasol/tai/hen bensiynwyr/ffyrdd/denu diwydiant a sicrhau teledu lliw i bob copa walltog yng Nghymru os gwir hanner yr hyn a haerwyd gan wleidyddion gwrth-Gymraeg yng Nghymru a thu allan iddi ar hyd y blynyddoedd. Rhaid wrth ddadlau dygn, rhesymu cadarn a phwyso parhaol ar yr awdurdodau cyn i reswm ennill y dydd. Na foed i ni golli'r frwydr bwysig hon drwy ddiffyg dyfal-barhad.

* * *

Wrth i ni ymlawenhau yng nghynnydd yr iaith ym Morgannwg, hwyrach y tâl i ni ystyried yn ddwys yr hyn sydd gan Thomas Davies i'w ddweud ar fater safon (neu ddiffyg safon) yr iaith sy'n cael ei hatgyfodi yn y cwr hwn o Gymru. Drwy gyd-ddigwyddiad, mae Shân Emlyn (Colofn yr Ysgolion Meithrin) yn cyffwrdd ar y pwnc hwn hefyd, a'r hyn sy'n brawychu dyn wrth gwrs yw er eu bod ar ddwy ochr gwbl wahanol yn y ddadl, eu bod yn gwbl gytun ar y ragdybiaeth sylfaenol: mai bratiaith afrywiog a digystrawen yw Cymraeg y dadeni ieithyddol presennol.

Ond a oes raid i'r iaith a ddysgir yn ein hysgolion a'n dosbarthiadau nos fod yn erthyl diwereiddiau, annhafodieithol sy'n colli ei grymuster o flwyddyn i flwyddyn? Onid yw'r sefyllfa hon yn galw am newid sylfaenol yn yr agwedd bresennol tuag at ddysgu'r iaith — nid am son, fel y gwna Thomas Davies, am godi safonau drwy gyfyngu ar y niferoedd sy'n dysgu, a'i chondemio am byth felly i fod yn eiddo *elite* bychan o ddeallusion yn hytrach na iaith fyw gwerin gwlad.

* * *

Cyn hir, fe fydd cymdeithasau Cymraeg y cylch yn cychwyn ar eu rhaglen am y gaeaf. A gawn ni apelio felly ar i ysgrifennydd pob cymdeithas ddanfon atom gopi o'u rhaglen am y gaeaf *ar unwaith*, a thrwy hynny sicrhau cyhoeddusrwydd i bob cyfarfod yn ein calendr o fis i fis.

* * *

# DYFYNIAD Y MIS

**"......basically I believe it's perfectly reasonable to create a Welsh school for children from Welsh-speaking homes, but many of the parents demanding Welsh Education for their kids now are non-Welsh speakers."**
*South Wales Echo* **8.7.76.**

Y Cynghorydd Bernard Matthewson, Cadeirydd Pwyllgor Addysg Bellach Cyngor Sir De Morgannwg.
*Wel, wel, beth nesa?!*

# *Teyrnged*

*I NANS JONES*

*ar ymddeol ohoni o'i swydd yn Swyddfa Plaid Cymru*

*Y fun o fin y Fenai — yma a wnaeth*
*wasanaeth a'n synnai,*
*yn galed hi a'n galwai*
*i waith ble bynnag yr âi.*

*I Gymru y bu hi byw — yn gyfan*
*ag afiaith uchelryw,*
*hi yn llwyr fu wrth y llyw,*
*a'i haeddiant nodwn heddyw.*

*Codi Cymru o'r codwm — a fynnai,*
*o efynnau'i chwlwm,*
*ac o warthrudd ei gorthrwm,*
*i'w bod llawn o'i bywyd llwm.*

*I'w rhyddid yr ymroddodd, — holl allu*
*ei hewyllys dreuliodd*
*yn ei swydd yn rhwydd, a rhodd*
*o'i gorau, cans "Hon" a garodd.*

*A heddiw bydded iddi — esmwythyd*
*a dros meithion flwyddi,*
*ac i weled mawr fedi,*
*ryw ddydd, lle llafuriodd hi.*

Ithel Davies a'i cant.

Darllenwyd yr englynion uchod mewn swper teyrnged i Nans Jones gan ferched Plaid Cymru yn Rhiwbeina nos Iau Gorffennaf 1af 1976.

## CALENDR MIS MEDI

9 **CLWB CINIO MERCHED CAERDYDD.** Gwesty Pantmawr 7.30p.m. Gwr gwadd, Dr Dafydd Huws.
10 Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Y Barri a'r Fro **MORDAITH HAFREN** Pier Penarth 8.15p.m.
14 Merched y Wawr, Caerdydd **CYFARFOD AGORIADOL** Canolfan yr Urdd, Heol Conwy 7.30p.m.
20 Yr Urdd, Dosbarth Caerdydd **HELFA DRYSOR** i'r adrannau cynradd. Canolfan yr Urdd 4.30p.m.
24 Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Y Barri a'r Fro **Y FEDEL WENITH** Bwyd a diod, dawnsio a chanu. Atoty'r Neuadd Goffa, Y Barri.
25 Plaid Cymru, Cangen y Merched. **GWYL FEDI** Canolfan yr Urdd, 7.00p.m. Swper bys a bawd. Gwr gwadd, Emrys Roberts.

Wrth fynd i'r wasg, daeth y newyddion fod Cymdeithas Gelfyddydau De-ddwyrain Cymru wedi dod i'r adwy unwaith eto gyda chymhorthdal hael a sicrha ddyfodol *Y Dinesydd* am gyfnod eto. Ond, nid yw hynny'n gwanhau dim ar y gri o'r galon a fynegir yn y gerdd ar dud 5. Er mor dderbyniol yw'r cymhorthdal, ni thâl ond am gyfran fechan o gostau argraffu'r papur hwn — mae'r gweddill yn dibynnu arnoch chi. Diolch unwaith eto i'r cyfeillion sydd wedi cyfrannu mor hael yn ystod y misoedd diwethaf — ond melys moes mwy! A'r ffordd rwyddaf i chi ac i ninnau yw drwy gyfamodi am gyfnod o bum mlynedd, gan ddefnyddio'r archeb fanc a geir wrth droed y gerdd. Mewn gobaith, diolch.

# Cyngor Cymraeg Penarth a'r Cylch

**Ffurfiwyd Cyngor Cymdeithasau Cymraeg Penarth, Dinas Powys a Sili yn dilyn nifer o gyfarfodydd rhagarweiniol ar 17eg Mis Mawrth pan oedd cynrychiolwyr o wyth cymdeithas leol yn bresennol. Y mae amcanion y Cyngor yn un, ac yn glir: I ddyrchafu cymdeithasau Cymraeg yn y dref a'r ardal; I ddyrchafu'r iaith Gymraeg; I hyrwyddo cyd-weithrediad y cyrff Cymraeg amrywiol yma; I ddyrchafu digwyddiadau Cymraeg yn yr ardal; ac i galonogi cefnogaeth a diddordeb mwy llydan yn iaith a diwylliant Cymru.**

Y mae'r Cyngor eisoes wedi cymryd camrau tuag at yr amcanion yma. Ym Mis Mai, ymddangoswyd "Y Post", papur newydd y Cyngor ei hun, am y tro cyntaf, ac fe'i cyhoeddir pob yn ail fis. Dosberthir ei bum cant o gopïau trwy gymdeithasau, ysgolion a siopau yn y dref a phentrefi cyfagos.

Y mae'r Cyngor hefyd yn cefnogi digwyddiadau mawr ym Mhenarth, gan gyfrannu arddangosfa "Cymry'r Fro" i Wyl Hâf Penarth ym Mis Gorffennaf, a threfnu Noson Werin a Thwmpath a Chymanfa Ganu i'r un ŵyl.

Mwy uchelgeisiol ydyw'r Ŵyl Hydref a redir gan y Cyngor Cymraeg. Bydd yn parhau am ddeng niwrnod, a gwahoddwyd pob cymdeithas yn y dref ac ardal i gyfrannu; mae hyn yn cydymffurfio â pholisi'r Cyngor o fynd â digwyddiadau Cymraeg i mewn i fywyd y dref yn ei chrynswth. Y mae wedi bod yn galonogol sylwi ar y gefnogaeth a fynegwyd i'r ŵyl gan Gyngor lleol Tref Penarth, ac y mae'r Cyngor Cymraeg yn edrych ymlaen at flwyddyn o waith ffrwythlon.

B.R. KEITCH


---

**Bydd y rhifyn nesaf o'r *Dinesydd* yn ymddangos ar Fedi'r 10fed. Deunydd ar gyfer y rhifyn hwnnw erbyn AWST 27 fan bella, os gwelwch yn dda. Danfoner at: Golygydd *Y Dinesydd*, 66 Heol Maendy, Cathays, Caerdydd.**

---

## BWYDO CYMRU YM MÔN

**Pan glywais am fenter fawr y Ganolfan yn Eisteddfod yr Urdd eleni, fy ymateb cyntaf oedd, "'Dŷn nhw ddim yn gall!" Ond yn wir, ar ôl bod ym Mhorthaethwy a chael blasu eu "selsgwn", eu "crempolau", eu fferins, eu pop, eu ffrwythau a'u hufen ia, rhaid i ddyn eu llongyfarch ar waith mor wych.**




Roedd mwy o awydd prynu ar rywun eleni rywsut, gan fod modd cael sgwrs wrth brynu gyda ffrindiau fel Siân, a fu'n arbrofi'n grempolaidd drwy'r wythnos, a Carol ap Dewi sy'n dal i freuddwydio am selsgwn! Gwasanaeth cyfeillgar ar bob stondin — a phrisiau isel i'w ryfeddu!

Roedd yr arwyddion mawr "Aelwyd Caerdydd" yn gwneud i ni o'r Sowth yma deimlo'n gartrefol iawn mor bell o gartref. Hyfryd oedd gweld bws-mini Ysgol Howells, Llandaf yn ddiplomatig hysbysebu Eisteddfod y Barri wrth fynd o gwmpas ei waith. Deallaf i'r pwyllgor rheoli gael defnyddio'r bws yn rhad ac am ddim am yr wythnos. Chware teg i'r ysgol wir.

John Watkin wrth gwrs oedd ysgrifennydd y pwyllgor rheoli ar un adeg, a gweithiodd yn ddygn iawn i'r ganolfan yn ystod ei arhosiad yng Nghaerdydd. Fel y gŵyr rhai o ddarllenwyr *Y Dinesydd*, mae allan yn Brunai ar hyn o bryd am ddwy flynedd, yn cynorthwyo i sefydlu sianel deledu yno. Er mor bell i ffwrdd, cofiodd am fenter fawr y Ganolfan ac anfonodd delegram ar ddiwrnod cynta'r Eisteddfod yn dymuno'n dda i'r gwerthwyr. Dywedodd cadeirydd y Ganolfan wrthyf i'r frysneges hon symbylu pawb i weithio'n galetach fyth.

Oedd y fenter yn werth ymgymryd â hi? Ateb swyddogion y pwyllgor oedd eu bod eisoes wedi gwneud cais am y cytundeb hufen ia yn Eisteddfod Aberteifi eleni. Ychwanegodd un arall fod yr holl weithwyr wedi cael llawer o hwyl, a boddhad mawr o wybod eu bod wedi sicrhau drwy'r fenter hon y cedwir drysau'r Ganolfan ar agor am gyfnod eto, a dal i roi'r cyfle i'n hieuenctid i fwynhau cymdeithas naturiol Cymraeg yng nghanol y brifddinas.

Mae'n rhaid fod Swyddfa'r Urdd yn Aberystwyth yn dra diolchgar i'r gweithwyr dygn yma o'r Ganolfan a wnaeth gymaint i wneud Eisteddfod Môn yn un hapus iawn.

GOHEBYDD ARBENNIG AR FAES YR EISTEDDFOD

---

Nos Iau, Gorffennaf y cyntaf, yng Ngwesty'r Pantmawr, Rhiwbeina, daeth nifer o ferched ynghyd i dalu teyrnged i Miss Nans Jones, Trefnydd Pwyllgorau Merched Plaid Cymru.

Yn ystod y cyfarfod soniodd Mrs Enid Jones Davies, Llywydd y noson, am wasanaeth hir ac ymroddgar Miss Nans Jones i achos Plaid Cymru. Daeth i Gaerdydd ym 1947 fel cyfrifydd pan sefydlwyd y Swyddfa yn Heol y Frenhines. Yn ddiweddarach, dyrchafwyd hi i'w swydd bresennol.

Talwyd teyrnged uchel iawn i Miss Jones hefyd gan nifer o ferched a fu'n cydweithio â hi ar hyd y blynyddoedd, ac yr oedd yn amlwg fod ei haddfwynder a'i llafur di-flino wedi gwneud argraff ddofn ar bawb a fu mewn cysylltiad â hi.

Ar ran pawb a oedd yn bresennol, cyflwynwyd anrheg a siec iddi gan Mrs Eirwen Davies, a blodau gan Mrs Ann Roberts. Canwyd cân, 'Hiraeth am Forgannwg' (T.E. Nicholas) gan Mrs Heulwen Jones, a darllenodd y Llywydd englynion cyfarch o waith ei gŵr, Mr Ithel Davies. (Gweler y dudalen gyferbyn.)

---

## LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau i Euryl a Iolo Walters ar y babi newydd.

---

### PLAID CYMRU PWYLLGOR Y MERCHED SWYDDOGION 1976-77

LLYWYDD: Mrs Enid Jones Davies.
IS-LYWYDD: Mrs Beryl Hall.
YSGRIFENYDDION: Mrs Pam Davies, Mrs Mari Wyn Williams.
TRYSORYDD: Mrs Heulwen Jones.

# TUDALEN Y DYSGWYR

## GWYLIAU MEWN CARTREF CYMRAEG

*Ydych chi wedi trefnu eich gwyliau haf eto? Rwy'n siwr fod llawer heb wneud hynny. Wel daliwch sylw ar y cyfle hwn. Mae Merched y Wawr â chynllun Gwyliau i Ddysgwyr sy'n siwr o fod yn help mawr iawn i bobl sy'n gallu siarad tipyn o Gymraeg ac sydd am gyfle i ymarfer.*

*Mae llawer o aelodau'r gymdeithas yn garedig iawn wedi addo rhoi llety rhad i ddysgwyr am gyfnod yn yr haf fel eu bod yn cael cyfle i fyw a chymdeithasu ar aelwyd Gymraeg. Y pris am wythnos yw £15 (gwely a brecwast ac un pryd arall) neu £3 y dydd am lai nag wythnos. Mae llety i'w gael yn Ynys Môn, Gwynedd, Clwyd, Powys, Dyfed a rhannau o Forgannwg. Ble yn y byd mawr y cewch gyfle fel yma, a mor rhad. Os oes gennych ddiddordeb ysgrifenwch yn syth at Mrs A. Thomas, Yr Hafan, 11 Western Rd., Clydach, Abertawe, Gorllewin Morgannwg SA6 5DY.*

## WLPAN YR EISTEDDFOD

*Roeddwn i'n son beth amser yn ôl am yr Eisteddfod Genedlaethol eleni yn Aberteifi pan am y tro cyntaf fe welir Wlpan Eisteddfod foreol. Os am ymuno â'r Wlpan yma ysgrifenwch at yr Ysgrifenyddes Robina Elis Gruffydd, Cwm Gorllwyn, Boncath, Dyfed SA35 0DN. Cofiwch fe fydd yr Wlpan Eisteddfod yn cychwyn bob bore am 9.30 am ac yn gorffen am 12.00.*

## RHAGLEN Y DYDD

*Rwy'n siwr y bydd llawer ohonoch yn dod i'r Eisteddfod ond yn methu ymuno â'r Wlpan felly cofiwch fod yna raglen lawn ar eich cyfer, bob dydd gyda digon o amrywiaeth hefyd. Dyma'r rhaglen*

*Dydd Llun:* **12.00 o'r gloch — awr o ganu**
**1.00 — Gwers Arddangos gan Bryan James, Uned Iaith**
**2.00 — Croeso i'r dysgwyr yn y pafiliwn**
**3.45 — Croeso ar y maes — Cwpanaid o de a sgwrs yng nghwmni Cymry Cymraeg a Dysgwyr.**
*Dydd Mawrth:* **12.00 — Awr Ganu**
**1.00 — Gwers arddangos gan Alun Jones**
**2.00 — Telediad o'r Coroni mewn Cymraeg syml**
**4.00 — Arddangosiad o ddefnyddiau'r Uned Iaith Genedlaethol gan Eric Evans**
**5.00 — Hwyl Cartwn gan Hywel Harries**

*Dydd Mercher:* **12.00 — Awr ganu**
**1.00 — Gwers arddangos gan Dan L. James**
**2.00 — Ffilmiau'r BBC**
**3.45 — Sesiwn Gymraeg gan Gwmni Masnachol Abertawe**
**4.45 — Dewch i gyfarfod awduron ail iaith**
*Dydd Iau:* **12.00 — Awr ganu**
**1.00 — Gwers arddangos gan Moelwyn Preece**
**2.00 — Telediad o Seremoni'r Cadeirio gan y BBC**
**3.45 — Sesiwn o "Cant ac Un" (Gêm Iaith Chris Seager)**
*Dydd Gwener:* **12.00 — Awr Ganu**
**1.00 — Gwers arddangos gan Gwilym Roberts**
**2.00 — Telediad syml gan y BBC o Seremoni Croesawu'r Cymry ar Wasgar**
**4.00 — Cyfarch a chân gan ddysgwyr o'r gwledydd Celtaidd**
**7.30 — Noson Fawr y dysgwyr yng Nghlwb Rygbi Aberteifi.**
*Dydd Sadwrn:* **12.00 — Awr ganu**
**1.00 — Gwers arddangos yng ngofal Rhiannon Lloyd a phlant Ysgol Uwchradd Aberteifi**
**3.00 — Sesiwn o sleidiau gan Morys Rhys**

*Ar ôl dychwelyd o'r Eisteddfod fe fydd hi'n amser meddwl am gyrsiau'r gaeaf yn fuan iawn wedyn. Fe hoffwn son am ddau gwrs fydd yn dechrau yng Nghaerffili yn y gaeaf.*

*CYFLE 76 — Fe fydd y cwrs yma yn cymryd lle yn ysgol Uwchradd Sn Cennydd, yn y Ganolfan Oedolion yno. Yn lle ymuno â dosbarth nos am un noson yr wythnos fe fedrwch fynd ddwy waith yr wythnos, mewn geiriau eraill fe fyddwch yn gwneud gwaith dwy flynedd mewn un. Dylai'r bobl sy'n ymuno â'r cwrs yma fod wedi bod yn dilyn dosbarth arferol am flwyddyn o leiaf. Y Bnr Moi Parri, Ysgol Gymraeg Senghenydd fydd yng ngofal y cwrs hwn.*

*WLPAN: Dosbarth 5 noson yr wythnos am ddeg wythnos yn Ysgol Gymraeg Caerffili yn dechrau ar 27 Medi tan 10 Rhagfyr — Pris y cwrs £13. Fe fydd galw mawr am le ar y cwrs hwn felly ysgrifenwch at Wlpan, Adran Efrydiau Allanol, 38-40 Heol y Parc, Caerdydd CF1 3BB.*

*CWRS BLWYDDYN COLEG Y BARRI: Mae yna le i rai pobl fyddai'n hoffi, ac a fyddai'n medru, treulio blwyddyn gyfan i ddysgu Cymraeg ar y cwrs sy'n dechrau ym mis Medi yn Y Barri. Os na fedrwch fynd am flwyddyn, beth am ymuno â'r cwrs am dymor?*

*Pris y cwrs, sy'n cael ei gyfarwyddo gan Cennard Davies, yw tua £70 y tymor neu £170 am y flwyddyn. Os ydych am fanylion llawn, ysgrifennwch at Miss M. Pierce, Coleg Politechnig Cymru, Y Barri.*

*Cofiwch ddal ati i siarad Cymraeg dros yr haf, ac os nad oes cyfle i siarad, yna darllenwch Gymraeg; os nad oes llyfrau na phapurau Cymraeg gyda chi yna gwnewch y peth pwysicaf i gyd — MEDDYLIWCH YN GYMRAEG.*

JOHN ALBERT

*Ysgrif gan Dorothy Wood, un o ddysgwyr mwyaf selog (a mwyaf llwyddiannus!) Caerdydd, sy'n adrodd yn ddifyr iawn hynt a helynt ei charwriaeth dymhestlog â'r iaith Gymraeg! Mae Mrs Wood yn awdur nifer o straeon ac erthyglau Cymraeg ac ym mis Mai eleni, enillodd Wobr D.E. Evans Adran Allanol Coleg y Brifysgol, Caerdydd am draethawd Cymraeg ar farddoniaeth T.H. Parry Williams.*

# "Ni allaf ddianc rhag hon"

**Hoffwn feddwl mai myfi a luniodd yr ymadrodd: "love-affair with a language" ond y mae ofn arnaf nad yw hyn yn wir. Dyn a oedd wrthi yn dysgu Cymraeg biau'r geiriau yma, 'rydw i'n siŵr, rhywun a adwaenai yn nyfnder ei galon gyffro ac anobaith, lawenydd a phoen, y gwaelod a'r top; ac ni fu erioed gariadfab neu ferch yn fwy profoclyd, cynhyrfiol, swynol, gwamal na'r iaith honno. A dyma beth od, fod iaith sydd ynddi gymaint o'r elfen Ladin gall fod mor wamal, swynol? Yn ddiau, yr elfen Frythoneg sydd ar fai am hynny; yn sicr, ni fu dysgu Lladin yn 'love-affair' i mi o gwbl!**

Symbyliad y peth yn y lle cyntaf oedd rhaglen deledu ar gyfer yr ysgolion a minnau'n troi'r set ymlaen yn hollol ddiarwybod, ddiofal a chael ar y sgrîn ddyn ifanc, cwrtais yn siarad â gwraig oedrannus, ei hwyneb yn llawn profiad bywyd, ei llais yn gryf, gadarn, gyson, a'r ddau ohonynt yn siarad iaith ddiethr, wahanol i bob iaith a glywais i erioed. Fe ddysgais yn ddiweddarach mai Dr Kate Roberts oedd y wraig, a'i hymholwr, Dr Derec Llwyd Morgan; y Gymraeg, wrth gwrs, oedd yr iaith. Wrth ddilyn y trywydd ymhellach cefais ymhen amser fod Dr Kate Roberts yn llenor adnabyddus, yn nofelydd, yn arbenigwraig yn y grefft o ysgrifennu storïau byrion. Fe wnaeth y profiad hwnnw argraff ddwfn arnaf a minnau'r meddwl ar y pryd mai iaith farw oedd y Gymraeg, heb fod yn bosibl ysgrifennu storïau ynddi. Yn y fan a'r lle penderfynais ei ddysgu hi.

A dyma fi'n cychwyn o'r dydd hwnnw, law yn llaw â'r iaith fendigedig hon ar lwybrau troellog, rhyfedd, trwy goedwigau dychrynllyd y treigliadau, tros gorsydd peryglus yr "yw, y mae, sydd", y berfau rheolaidd, afreolaidd, diffygiol, hyd at fynyddoedd y gynghanedd hyd yn oed, ond heb aros yn hir yno, yr oedd yr awyr mor denau! O dro i dro des o hyd i flodau gwyllt hardd iawn; dro arall, danadl ac ysgall. Dechreuasom barchu ein gilydd erbyn hyn, yr iaith a minnau; methu deall ein gilydd weithiau, hefyd. "The course of true love never did run smooth" chwedl y Sais. Faint o weithiau, tybed, des i adre ar ôl rhyw gyfarfod mwy digalon nac arfer ac yn dweud: "Dyma'r diwedd; 'rydw i'n rhoi'r ffidil yn y to." Ond fel y dywedais, "love-affair" oedd hon — nid oedd yn bosibl i mi roi'r gorau iddi. Felly, yn ôl yr wythnos nesa a chael rhyw ffafr newydd, rhyw gipolwg ar hyfrydwch i ddyfod.

Ac o'r diwedd, fe ddaeth ambell i "red-letter days", ac un ymhlith llawer ohonynt, wrth gwrs, oedd cael sgwrs bach â Dr Kate Roberts a Dr Derec Llwyd Morgan ym Mhlas Gregynog y llynedd; ond allaf i ddim rhestru'r "red-letter days" i gyd, y mae cymaint ohonynt. Faint o athrawon, darlithwyr, ffrindiau oedd yn sylweddoli ar y pryd mai "red-letter day" yr oeddynt yn creu i mi, tybed? Diolch o'r galon iddynt i gyd, am gyflwyno'r iaith a llenyddiaeth Gymraeg i mi. Ymhellach, "ni allaf ddianc rhag hon".

DOROTHY WOOD

# NEWYDDION CWM RHYMNI



## MABOLGAMPAU

Daeth plant o bob rhan o'r cwm yn cynrychioli ysgolion Cymraeg Senghennydd, Caerffili, Bargod a Rhymni i Barc Bargoed ar fore heulog i gystadlu mewn cyfres o fabolgampau. Hon oedd y flwyddyn gyntaf i'r ysgolion ddod ynghyd fel hyn a disgwylir y bydd yr ornest hon yn datblygu'n weithgaredd blynyddol ac y bydd modd yn y dyfodol i wahodd ysgolion Cymraeg eraill o gymoedd cyfagos. Enillwyd y ddau gwpan gan Ysgol Gymraeg Caerffili, y naill ar gyfer cystadlaethau'r merched a'r llall ar gyfer y bechgyn. Cyfranwyd y cwpanau gan Gyngor Dosbarth Cwm Rhymni a Chlwb *Inner Wheel* Caerffili.

## NOSON LAWEN

Roedd 'stafell gefn y Gloch Las yn orlawn i fwynhau Noson Lawen a drefnwyd ar gyfer dysgwyr yr ardal. Yr arweinydd penigamp oedd Gwilym Roberts, Caerdydd, a chafwyd eitemau amrywiol a safonol gan John Edwards, Gaynor Williams, Dewi ap Rl.obert, Catrin Rowlands a Ieuan Williams. Yn ogystal perswadiwyd John Albert Evans i adrodd nifer o'i hen jôcs! Ond yn ddiamau uchafbwynt y noson oedd datganiad gwefreiddiol Alun Charles ei hun o'r alaw swynol *Titw Tomos Las*. Noson i'w chofio yn wir!

## YMDDEOL

Ymddeolodd y Ficer Sedgemore o ofalaeth eglwys Llanbradach yn ddiweddar. Yn yr eglwys honno y bu Ysgol Feithrin Gymraeg Llanbradach yn cael ei chynnal a thrtnwyd cyfarfod arbennig yn neuadd yr eglwys i ddiolch i'r Ficer a Mrs Sedgemore am eu cefnogaeth i'r ysgol ar hyd y blynyddoedd ac i ddymuno'n dda i'r ddau yn eu cartref newydd ym Mhorthcawl. Cyflwynwyd map o Gymru i'r Ficer gan Mrs Mary Jones, trefnydd yr Ysgol Feithrin, a thusw o flodau i Mrs Sedgemore.

## T. LLEW JONES


Bu'r awdur T. Llew Jones yn ymweld yn ddiweddar â nifer o ysgolion yn y cwm i sgwrsio gyda'r plant. Roedd ei daith, a drefnwyd gan Gyngor y Celfyddydau, yn cynnwys ysgolion Cymraeg Senghennydd, Caerffili, a Bargod ac Ysgol Trelewis. Dywedodd wedyn nad oedd wedi llawn sylweddoli cyn ei daith cymaint o gynnydd a fu yn nifer y plant yn mynychu ysgolion Cymraeg yn yr ardal.

## LESSONS GEOGRAPHY

Bernir ein cyfundrefn addysg yn aml am roi gormod o bwyslais ar ddaearyddiaeth a hanes gwledydd pell ar draul ein daearyddiaeth a'n hanes ein hunain. Ai hyn sydd yn gyfrifol am gamsyniad trefnwyr Cronfa'r Mil o Filoedd wrth gynnwys cyfraniad Cwm Rhymni yng nghyfanswm De Morgannwg?!

## TRETHI CYMRAEG

Clywyd si yn ddiweddar fod Cyngor Dosbarth Cwm Rhymni wedi paratoi ffurflenni trethi Cymraeg o'r diwedd. Ai gwir y gair?



## CROESO

Croeso i Angharad Rhys, chwaer i Ceri Rhys, a merch i Non a Garwyn Davies, Penarth a aned yn ddiweddar yn Ysbyty Dewi Sant, Caerdydd, a dymuniadau gorau i'r rhieni llawen.

## Y POST

Croeso i'n papur bro lleol newydd, sef Y POST, sy'n gwasanaethu Penarth, Dinas Powys, Sili a'r cylch. Hoffem ddymuno llwyddiant a hir oes i'r POST, oddi wrth holl ddarllenwyr *Y Dinesydd*.

# At gyfeillion Y Dinesydd —

**CERDD NEWYDD, FARWNADOL — DEST IAWN — YN NULL YR HEN GYMRY GYNT. I'W CHANU AR "Y BACHGEN MAIN", ALAW GYMWYS I GOFFAU DINESYDD Y MAE HI'N FAIN IAWN ARNO YN Y FLWYDDYN HON O OED CRIST.**

Ow! y cwynfan sydd yng Nghymru, dydd y cyfrif sydd ger llaw,
Ac mae newyddiadur arall bron â threngi yn y baw;
A oes llaw a ddaw i'm llywio? A oes rai a'm deil i'r lan?
Yn rhyferthwy blin y brwydro, pwy a gymer blaid y gwan?

Ple mae'r Cymdeithasau gwlatgar sy am achub Gwalia fach?
Cofiwch gyd-Ddinesydd llwydaidd dan eich trwyn — O! gwnewch fi'n iach:
Rhowch im' ddecpunt ddechrau'r gaeaf rhag im' drengi ger eich bron,
Rhoddaf finnau fy ngholofnau er eich cynnal Gymry llon.

Dewch hen hil syrthiedig Midas, prynwch beth o'ch ffordd i'r ne',
Dim ond dwybunt yn y flwyddyn a dof finnau'n ôl i'm lle;
Dim ond grôt yn ôl yr wythnos — rhoi y boced lle mae'r geg —
A cheir gweled gardd Sophia fel un Babilon, yn deg.

Ple mae bechgyn y Newyddion, holl wŷr serchog Aitshtiff
A llu glew y Britishbrodcast — ple mae'r rheini, 'dybiwch chi?
O! na ddeuai cyfraniadau ysgrifbinol ganddynt hwy —
Mawr ryfeddod gweld Gohebwyr yn fy nghladdu ar y plwy'!

Deuwch chwithau'r Hysbysebwyr, chwi'r canmolus draethwyr hael,
Buoch imi'n gefn am gyfnod ac yn gymorth gwych i'w gael;
Gallaf gynnig i ddarllenwyr nwyddau ffein, gwasnaethau fyrdd,
Heb anghofio mân betheuach — gwrthodedigion min y ffyrdd.

Dim ond teirgwaith y dof eto i fordwyo ar fy hynt —
Oni leinw'r howld â thrysor, oni leinw'r hwyl â gwynt:
Ond rhaid imi newid delwedd cyn diweddu hyn o gân —
Cofiwch, cyn ichi fy nghladdu, eich bod yn claddu Cymro glân.

*(torrer yma)*

## ARCHEB BANC

AT Y RHEOLWR ____________________ (Enw'r Banc)

____________________ (Enw'r Dref)

Dymunaf i chi dalu i Fanc Masnachol Cymru, Caerdydd (Rhif Swyddogol 70-15-10) i gyfrif PWYLLGOR RHEOLI Y DINESYDD, rhif cyfrif 12061506, ar unwaith ac ar y dydd cyntaf o bob blwyddyn wedi hynny oni ddiddymir yr archeb hon gennyf mewn ysgrifen y swm o (mewn geiriau)

(ARWYDDWYD) ____________________

CYFEIRIAD ____________________

Rhif cyfrif ____________________

£ ____________________

DYDDIAD ____________________

PWYSIG Dychweler y ffurflen hon at: Geraint Walters
Trysorydd *Y Dinesydd*
29 The Rise
Llanishen, Caerdydd

# ADOLYGIAD

**Un o'r cyfrolau mwyaf diddorol i ymddangos eleni, yn ddiamau, yw'r gyfrol o ysgrifau ar lenyddiaeth Ewrop yn yr 20fed Ganrif a gasglwyd ynghyd gan Gareth Alban Davies a W. Gareth Jones o dan y teitl** *Y Llenor yn Ewrop.*

Un o'r ysgrifau gorau ynddi yw ysgrif Gareth Alban Davies, ar Gide: rhydd hon i ni ddarlun byw iawn o'r gŵr cymhleth wrthi'n chwilio am ryddid gan frwydro yn erbyn y ddeuoliaeth yn ei natur ef ei hun, yn ogystal â gwerthfawrogiad cryno a threiddgar o'r llenor toreithiog. Cawn yr un ymdeimlad o lenor a pherson yn ysgrif wych Roy Lewis ar Camus, un o gymeriadau mwyaf deniadol y ganrif; rhyfedd na fyddai gwaith yr awdur hwn wedi cael mwy o ddylanwad ar Gymry ifanc yr ugain mlynedd diwethaf. Mae Mr Lewis yn cynnig eglurhad ar hynny: "Y mae meddwl Camus yn perthyn i draddodiad hollol ddieithr i'n traddodiad ni yng Nghymru. Cymdeithas wledig a cheidwadol a luniodd ein meddwl ni.... Prin i ni erioed wynebu'r posibilrwydd y gall fod cwestiynau na ellir eu datrys mewn llinell o gynghanedd, mewn adnod feiblaidd neu mewn slogan wleidyddol. Nid yw chwilfrydedd meddyliol neu anturiaeth athronyddol yn nodweddiadol o gymdeithas geidwadol a gwledig." (tud 69). Dweud mawr!

Ysgrif arall feistrolgar yw'r eiddo Myrddin Lloyd ar Sartre, lle cawn grynodeb gymen a chlir o syniadau athronyddol y dirfodwr a'r comiwnydd, syniadau sydd mor hanfodol er deall ei waith fel llenor. Comiwnydd arall, ond un a wynebai broblemau'r berthynas rhwng llenyddiaeth a bywyd mewn ffordd wahanol iawn oedd Brecht: iddo ef, addysgu oedd pwrpas drama. Ac eto, i roi un enghraifft, un o gynyrchiadau mwyaf poblogaidd Cwmni Drama Cymru y llynedd oedd ei *Good Woman of Setzuan*, drama yr oedd yn bosib ei mwynhau yn ogystal â dysgu oddi wrthi. Mae Idris Parry yn ei ysgrif ar Brecht yn crynhoi'r paradocs hwn yng ngwaith y dramodydd yn gymen iawn: "Bwriadodd i'w gelfyddyd sefyll ar lwyfan-ddarlithio a dadlau; yn lle dadlau, fe ddawnsiodd, oherwydd y mae celfyddyd yn denu'r isymwybod aflywodraethus." (tud 160).

Yr oedd problem perthynas bywyd a llenyddiaeth yn un fyw iawn i Paul Valery hefyd, fel y dengys J. Ifor Davies yn ei gyfraniad meddylgar ar y llenor mawr hwn. A fel y dengys T. Pugh Williams yn ei ysgrif yntau, dyna oedd problem fawr Rilke hefyd, sef sut i draethu ei brofiadau "a dod â'r gair a'r ddelwedd a'r profiad i gydgordio'n llwyr." (tud 121); dyfyna Mr Williams eiriau Rilke ei hun, "...y mae'r rhan helaethaf o ddigwyddiadau yn anhraethadwy, yn cyflawni eu hunain mewn gofod na sangodd troed arno erioed, a mwy anhraethadwy na'r cyfan yw gweithiau celfyddyd bodau cyfriniol y mae eu bywyd, wrth ochr ein bywyd brau ni, yn parhau byth." (tud 121).

Nid yw gofod yn caniatáu i mi fanylu ar yr ysgrifau eraill, ar Kafka, Malraux, Pasternac, Claudel a Lorca er eu gloywed, ond dylwn hwyrach nodi fod yna gyfraniadau gwerthfawr gan Elenid Williams a John Watkins, y naill ar Theatr y Direswm a'r llall ar y Nofel Newydd; mae pennod agoriadol Glyn Tegai Hughes ar Lên yr Ugeinfed Ganrif yn rhagarweiniad defnyddiol iawn. At ei gilydd, trysorfa o gyfrol a fydd yn apelio yn eang iawn.

*Y Llenor yn Ewrop (gol. Gareth Alban Davies & W. Gareth Jones) Gwasg Prifysgol Cymru, pris £2.50.*

**RICHARD BOOTH (BOOKSELLERS) LTD**

yw'r gwerthwyr llyfrau ail-law mwyaf ond un yn yr holl fyd, gyda saith siop wahanol yn Y Gelli, a rhyw filiwn o lyfrau ar werth ynddynt bob amser. Mae'r siopau i gyd ar agor ddydd Sadwrn ac erys rhai ohonynt ar agor dros y Sul hefyd. Prynnir a gwerthir pob math o lyfrau ail-law, a chroesewir ymwelwyr o bob math (byddai'n well gennym pe bai modd i bartïon drefnu eu hymweliadau ymlaen llaw).

*The Castle*
*Hay-on-Wye*
*via Hereford*
*POWYS*

*Hay-on-Wye 322*

*Cyngor Celfyddydau Cymru*
*Welsh Arts Council*

**Oriel**

**53 Heol Siarl Caerdydd**
**Teliffon: 0222 395548**

## Poster newydd!

i ddathlu 800 mlwyddiant Eisteddfod Genedlaethol Cymru.

- Hefyd holl bosteri cerddi a gyhoeddwyd gan ORIEL eisioes. £1.00 yr un, mewn ffrâm alwminiwm £11.75
- Llyfrau ar yr Ieithoedd Celtaidd, Cardiau, Cylchgronau. Recordiau o gerddoriaeth Celtaidd/ Recordiau'r gair llafar.
- Cyhoeddiadau diweddaraf Gregynog.
- Casgliad cynhwysfawr o ddeunydd i'r Dysgwyr.
- Y rhain i gyd i'w cael yn ORIEL ar faes yr Eisteddfod yn Aberteifi.

*Galwch heibio*

**Sain**

CYNHAEAF SAIN

**POP**
**Sain 1053M — Edward H. Dafis — 'Sneb yn Becso Dam' — £2.75**
**Sain 1022M — Geraint Jarman — 'Gobaith Mawr y Ganrif' — £2.75**
**Sain 1046M — Ac Eraill — 'Diwedd y Gân — £2.75**
**Sain 1051M — Endaf Emlyn — 'Syrffio (Mewn cariad)' — £2.75**
**Sain 1050D — Goreuon Sain Eto — £2.49**

**AMRYWIOL**
**Sain 1057H — Caneuon Gorau Jac A Wil (Cyfrol 1) — £1.99**
**Sain 1058H — Caneuon Bob Roberts Tai'r Felin (Cyfrol 1) — £1.99**
**Sain 1055D — Dafydd Edwards (Tenor) — £2.49**
**Sain 58E — Côr Telyn Teilo — Cân Merched y Wawr — £0.92**
**Sain 1049D — Côr Bro Gele (Pensiynwyr) — £2.49**

**LLAFAR**
**Sain 1041D — 'Hengerdd' — Aneirin a Taliesin — £2.49**
**Sain 1059D — 'Y Tri Bob' — Robin Williams — £2.49**
**Sain 1030D — Branwen a Culhwch ac Olwen (I'r plant) — £2.49**

**CASETIAU**
**Nifer o gasetiau newydd, yn cynnwys 'Mae'r Darnau yn Disgyn i'w Lle' — Dafydd Iwan — £2.60**

*Cofiwch alw ym mhabell SAIN ar Faes y 'Steddfod!*
SAIN (RECORDIAU) Cyf., Ffordd Llanllyfni, Penygroes, Caernarfon. Ffôn — Penygroes 732.

# Noson Sirol y Merched

**Cynhaliwyd Noson Sirol Merched y Wawr, Dwyrain Morgannwg a Gwent ar nos Wener, Mehefin 28ain, yng Nhraig-y-Parc, Pentyrch. Cangen Y Creigiau oedd yn gyfrifol eleni am drefnu'r noson.**

Hen dŷ urddasol a hardd yw Craig-y-Parc, ac fe'i defnyddir yn awr fel ysgol i blant sbastig. Saif mewn llecyn hyfryd yng nghanol gerddi hardd. Gan ei bod yn noson mor braf cynhaliwyd y rhan fwyaf o weithgareddau'r noson allan yn y gerddi.

Daeth tua 150 o ferched ynghyd i gynrychioli'r saith cangen sydd yn y Sir. Croesawyd nhw ar ran Gangen y Creigiau gan y Llywydd Mrs Nan Griffiths. Yna cafwyd anerchiad gan Mrs Ann Rees, Llywydd y Sir, A chyflwynwyd Llywydd y Sir y flwyddyn nesaf sef Mrs Beti Davies.

Yna, wedi cael pryd ardderchog o fwyd, aeth pawb allan i fwynhau'r adloniant. Cafwyd detholiad hyfryd o ganeuon gwerin ar y thema "Yr Haf" gan gwmni o ferched ifanc o Goleg Addysg Caerdydd, wedi eu hyfforddi gan Miss Ann Rosser. Cafwyd unawdau ar y delyn hefyd gan Miss Gillian Green. Mae hi'n athrawes y delyn yn y cylch, ac edmygwyd ei dawn a'i medrusrwydd.

Dangoswyd cryn ddiddordeb yn y gystadleuaeth eleni. Gofynwyd i bob cangen baratoi pinic i ddau. Cawsom gyfle i weld picnicau y chwe changen a gynigiodd, rhai ohonynt wedi eu gosod allan yn ddeniadol iawn. Picnic Cangen y Barri a ddyfarnwyd yn orau gan y ddau feirniad Mrs Susan Williams a Mrs Morwenna Bebb. Nhw fydd yn mynd ymlaen i gynrychioli'r Sir yn Sioe Amaethyddol Cymru, Llanelwedd.

Pan ddaeth y noson i ben teimlwyd yn gyffredinol i bawb gael noson hynod o ddifyr a llwyddiannus.

# O'r Ganolfan

## ENNILL Y DARIAN

Daeth buddugoliaeth fythgofiadwy i ran Aelwyd Caerdydd yn Eisteddfod yr Urdd ym Mhorthaethwy eleni. Dyma'r tro cyntaf o fewn cof i Aelwyd gyrraedd cyfanswm mor uchel â 124 o farciau i gipio Tarian yr Aelwydydd. Dyma rai o'r canlyniadau:

* CYNTAF yn y Ddrama, y Tîm Siarad Cyhoeddus, Detholiad Llafar, Parti adrodd i gyfeiliant, Cefin Roberts yn yr Unawd Cerdd Dant, a'r gystadleuaeth i Gorau Mawr Aelwydydd.
* AIL i'r Parti Dawnsio Gwerin, Einir ac Eirian Davies yn y ddawns i ddau, Côr Merched.
* TRYDYDD i Elinor a Cefin yn yr ymgom, Cefin yn yr Unawd ac yn yr Alaw Werin, Einir yn y ddawns unigol.

Llongyfarchiadau iddynt oll, ac i'w hyfforddwyr a weithiodd mor galed drwy gydol y gaeaf.

Gwobrau arbennig: i Cenfin, am iddo dreulio dau bâr o sgidiau — dyna'r gosb am gystadlu ar 12 cystadleuaeth! Ac i Carys Evans hefyd, am deithio 200 milltir i lywio'r Tim Siarad Cyhoeddus a chasglu'r tlws hwnnw.

## GINIS BWC OF RECODS

Mae'r Ganolfan newydd gipio record newydd — am y Bathodyn yr Urdd mwyaf yn yr holl fyd (ar ddrysau allanol y Ganolfan)!

## AIL-DDECHRAU


Fe fydd dosbarthiadau Cymraeg yn ail-ddechrau ar Fedi'r 15 am 7.00p.m. Os oes gyda chi ffrindiau ag eisiau dysgu — nodwch y dyddiad. Yn anffodus, rhaid cyfyngu'r oedran i rai o dan 35 oherwydd y galw mawr.

Fe fydd yr Aelwyd yn ail agor ar ôl y gwyliau nos Wener, Medi 3; yr Uwch-Adran nos Lun, Medi 6, ac Adran Llandaf nos Wener y 10fed.

## CÔR AELWYD I HAMBURG

Mae Côr Aelwyd Caerdydd wedi derbyn gwahoddiad i ymweld â dinas Hamburg yn yr Almaen ar ddiwedd mis Hydref. O ganlyniad i'r fuddugoliaeth yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, mae'r côr bellach wedi ymsefydlu'n gôr parhaol ac ar ôl cystadlu yn Aberteifi eleni, fe fydd wrthi'n paratoi ar gyfer y daith dramor. Bydd ymarferion yn dechrau ar Fedi'r 6ed am 8.00p.m. Os oes 'na rywun o dan 25 mlwydd oed â diddordeb mewn ymuno â'r côr hwn, croeso cynnes i chi ddod i'r Ganolfan nos Lun neu nos Iau yr wythnos honno.






# Achub y Faner

Cyhoeddodd Cyngor Celfyddydau Cymru yn ddiweddar ei fod wedi derbyn mewn egwyddor argymhelliad oddi wrth ei Bwyllgor Llenyddiaeth y dylai estyn cymorth ariannol i'r wythnosolyn Cymraeg, *Y Faner*.

Dywedodd Mr Meic Stephens, Cyfarwyddwr Llên y Cyngor. "Yr ydym wedi cytuno y dylai *Y Faner* barhau'n gyhoeddiad wythnosol ond y dylai ganolbwyntio'n fwy ar sylwadaeth ar faterion cyfoes yn hytrach na cheisio dilyn hynt newyddion yng Nghymru. Y mae ym mwriad y perchennog i newid fformat y papur fel bod *Y Faner* yn dilyn siâp papurau Saesneg megis *The New Statesman* neu *The Spectator*. Bwriedir penodi golygydd newydd ar gyflog proffesiynol a fydd yn ymuno â Mr Gwilym R. Jones a Mr Mathonwy Hughes, y golygyddion presennol, ar y bwrdd golygyddôl. Mawr obeithiwn fod *Y Faner*, sydd wedi gwneud cyfraniad mawr i'r bywyd Cymraeg ond sydd yn awr, oherwydd costau cynyddol, yn methu parhau mewn bodolaeth heb gymhorthdal, ar drothwy cyfnod newydd, cyffrous yn ei hanes."

# "Dring i Fyny yma..."

*O! cwn dy ben, gwel ffenest fry,*
*A dringa tuag ati,*
*Gwaith o'r tu fewn i'w gwydrau, sbo,*
*Mae allwedd clo fy fflat-i.*

Canwyd y llinellau uchod yn dra-chalonrwygol, un canol-nos ym Mehefin, gan y Fonesig Bethan Mcavothy Miles sydd â'i thrigfan, bellach, yn un o gresentau (nid, sylwer, "gresennau") Tredelerch. Anelwyd hwy at lanc a ddaeth, yn Wilhopgynaidd iawn gyda'i ysgol ar ei ysgwydd, i sicrhau mynediad i'r ddywededig Fonesig i'w fflat ei hun!!! Ni allai cymdogion agos y Fonesig — hen gwpwl Cymreigaidd, gwladaidd, onest — *amgyffred* y fath ddigwyddiad. Dywedir iddynt sibrwd, dan eu gwynt: "Nefi! ma' isio gras hefo'r bobl ifanc gwyllt 'ma."

# Ergyd i Ffilmiau Cymru

Mae'n debyg mai £15,000 fydd grant y Sefydliad Ffilmiau Prydeinig (BFI) i Adran Ffilmiau Cyngor Celfyddydau Cymru eleni. Er bod hyn yn 30% o gynnydd ar y llynedd, prin fod hynny'n ddigon i wrthbwyso effeithiau chwyddiant ac felly ni chafwyd unrhyw gynnydd gwirioneddol.

Mae'r sefyllfa hon yn peri pryder mawr i'r Adran Ffilmiau gan ei bod yn llyffethair ar unrhyw ddatblygiadau newydd y gellid fod wedi gobeithio amdanynt. Dylid nodi hefyd fod y swm hwn gryn dipyn yn llai na'r gyfran y dylai Cymru fod yn ei dderbyn yn ôl cyfartaledd y boblogaeth. Mae'n bosibl y bydd yr adran yn ystyried cychwyn ymgyrch gyhoeddus yn awr i alw sylw at sefyllfa alaethus ffilmiau yng Nghymru.

## Thomas Davies yn mentro i ffau'r llewod

# "Datblygiad — neu Ddirywiad?"

**Rhaid dweud ar unwaith fy mod i braidd yn ofnus a bod yn onest wrth ddechrau ysgrifennu am bwnc fel hwn, sef yr iaith. Fe ellid honni mai gwell fyddai ei adael i'r arbenigwyr, yr ieithegwyr a'r ieithyddion a'r gramadegwyr, a gwir hynny bid siŵr. Ond ychydig iawn iawn o'r rheini sydd, ac fe ddylai fod lle i ni, y bobl gyffredin, fentro ein barn ar bapur o bryd i'w gilydd. Felly dyma fi'n camu'n rhyfygus i dir neb i'm saethu gan y gwybodus rai am fod mor rhyfygus.**

Y prif beth sydd yn fy mhoeni beunydd beunos yw safon yr iaith ymhlith ein plant a'n pobl ifainc — nid bod iaith fy nghenhedlaeth i'n fawr gwell, ond o leia', a chofio am y cenedlaethau a ddêl, iaith ein plant sy'n holl bwysig. Mae iaith yn fwy, os bosib, na chyfrwng cyfathrebu, trosglwyddo eich syniadau a'ch teimladau i eraill. Hynny yw, mae brawddeg fel hon yn dweud popeth sydd ei angen inni gael deall, "Mae beic fi tu fâs y library ar y pavement." A bwrw ein bod ni'n medru rhywfaint o'r iaith fain hefyd (ac nid oes Cymry uniaith ar ôl bellach er gwaetha' honiad rhai o'r selogion), mae ystyr y frawddeg seml honno'n hollol eglur inni. Pam cyboli felly ynglŷn â phurdeb iaith ac ati? 'Wn i ddim pam, ond 'rwyf i'n sicr y dylem ni. Ond cofier mai fel hyn y bydd llawer iawn o'n hathrawon yn siarad yn yr ysgol gerbron y plant, gan ddefnyddio "allan" yn lle "fâs" yn Rhos-y-Bol a lleoedd gogleddol eraill. A chan fod iaith y rhieni mor sathredig, bydd y plant, neu lawer iawn ohonyn nhw, byth yn clywed Cymraeg da, ac oni chlywan' nhw iaith dda sut y gellir disgwyl iddyn nhw siarad yn weddus eu hunain? Gadewch inni ddadansoddi'r frawddeg a ddefnyddiwyd fel enghraifft: mae 'beic' yn dderbyniol (prin y daw "dwyrodr" i'n geirfa hyd yn oed wedi hunan-lywodraeth), ond yn bendant nid ydy "beic fi", er y derbynnir "mae e'n mwynhau ei hun" gan y gramadegwyr. Gellid maddau gollwng y fannod o flaen 'tu', mae'n debyg, ond byth y defnydd o'r geiriau "library" a "pavement". Tybed pryd y cawn ni ddatblygu pellach a symud "mae" i le yr "is" yn Saesneg? Nid derbyniol yw "tu fâs/allan y tŷ" — rhaid mynnu'r "i" fel y cawn ni "y tu allan i'r tŷ". Dirywiad pendant yw gollwng yr arddodiad, ond anodd bob amser yw gweld beth yn union yw'r gwahaniaeth rhwng datblygiad a dirywiad, ynte. Sut mae iaith — unrhyw iaith — yn datblygu, beth bynnag? Ai oherwydd anwybodaeth ar ran ei siaradwyr, tybed? Enghraifft o'r anwybodaeth hon ydy'r

defnydd o "nepell", mae hi'n siŵr, a chyn hir bydd "nepell" gyfystyr ag "agos", er i'r gwrthwyneb yn hollol y dylai fod. Ie, anwybodaeth a diogi sy'n bennaf gyfrifol. Felly "mae fy meic i y tu allan (fâs) i'r llyfrgell ar y palmant" — dyna a ddylem ni ei ddisgwyl gan blentyn a'i athro a'i fam.

*Melltith yr adferfau Saesneg.* Cymryd lle, golchi'n lan, gwneud i ffwrdd, sychu i fyny, rhoi i fyny — ac ymlaen ac ymlaen ac ymlaen. Cyfieithiadau di-reswm, ac mae hi'n rhyfedd na chlywir "cau i lan" yn lle "cau ceg". 'Fyddai hi ddim yn waeth na'r rhai a ddefnyddir ar hyn o bryd. Wedyn mae "effeithio" a "dylanwadu" — y cynta yn fwy arbennig. "Mae'r costau'n effeithio'r sefyllfa," "mae'r athro'n dylanwadu'r plentyn" — fe'u clywir byth a hefyd. Yr wythnos hon 'roedd hi'n bosibl y byddai "bara'n fyr" oherwydd bygwth peidio â gweithio gan bobyddion y Brifddinas a deimlai'n gryf y dylent gefnogi pobyddion un o drefi mawr Lloegr.

Erbyn hyn prin bod ardal yn y wlad lle y gellir clywed iaith rywiog, sicr ei phriod-ddulliau, pur ei geirfa, a phwy sy'n poeni amdani? Nid yr awdurdodau addysg yn sicr, nid y rhieni, ac nid yr ieithyddion proffesiynol 'chwaith. Fe fyddai gynt yn "Y Faner" golofn wythnosol "Gloywi'r Iaith", ond mae pawb bellach wedi gosod ei fryd ar ddysgu rhywfaint o'r iaith i'r rhai di-Gymraeg fel na phoenir am safonau. Rhaid rhoi lan 'da mistêcs ac ambell air Saesneg er mwyn cael pawb i siarad yr iaith, pa fath iaith bynnag fydd honno.

Mae gormod o lawer o blant yn ein hysgolion dwyieithog (Rhydfelen a'r gweddill) yn y byd sy ohoni. Fe ddylanwedir yn ddrwg ar iaith y rheini sy'n dod o gartrefi Cymraeg gan y mwyafrif na chlywant air o'r iaith ar yr aelwyd. Nifer sy'n hollbwysig fel y gallom ni ymffrostio ym maint ein hysgolion Cymraeg (neu ddwyieithog a bod yn gywir). Mae gwir angen trafod y sefyllfa hon yn fanwl *yn fuan* cyn iddi fynd yn nos yn llwyr. Ein gobaith ni bid siŵr ydy'r ysgolion hyn a gwerthfawr dros ben fu eu cyfraniad mewn llawer ffordd, ond gwyliwn y muriau. 'Rwyf i wedi tynnu nyth cacwn ar fy mhen, ond gobeithio y bydd rhywrai'n teimlo'r un fath ac yn barod i brocio yma ac acw. Yr awr dduaf yw honno cyn y wawr.

THOMAS DAVIES

*(Diddorol fydd clywed ymateb ein darllenwyr i'r gosodiadau go ysgubol hyn — yn enwedig athrawon mewn ysgolion Cymraeg a'r rheini sy'n dysgu Cymraeg mewn ysgolion nos. Edrychwn ymlaen at gyhoeddi eich llythyron yn y rhifyn nesaf. GOL.)*

### O MOR DRWM...

**Tybed ai gwir y newyddion trist fod aelodau Dosbarth Cadw'n Heini y dynion (cawsom eu hanes yn *Y Dinesydd*, mis Mawrth) wedi adennill yr holl bwysau a gollwyd yn ystod y gaeaf ar ôl pryd anferth yn Y Llwynog a'r Bytheaid yn Llancarfan? O mor drwm yr ydym ni......**

### NEWYDDION PWYSIG!

Os nad ydych wedi cael eich copi o FFWLBART rhif 3 eto (rhifyn mawr, ddwywaith maint y rhifynnau blaenorol) bydd copiau ar gael ar y Maes yn Aberteifi (o Babell Cyhoeddiadau Ap Dafydd neu oddi wrth werthwyr ar y maes, pris 4c).

GORFFWYSWCH - YMLACIWCH



CERBYDAU WENALLT

(*Perchennog J.M. CROOKES*)

Cerbydau moethus gyda 20-51 o seddau i'w hurio

SWYDDFA DOCYNNAU

Ffôn Caerdydd 31174

Gwasanaeth ateb pedair awr ar hugain

WHITTLE ROAD, LECKWITH ESTATE, CAERDYDD.

# Gobaith Mawr y Canu Pop Cymraeg

**_Gobaith Mawr y Ganrif_ yw teitl y record — a heb fynd i eithafion gor-ganmolaethus, mae'r record hirfaith newydd hon gan Geraint Jarman yn un o'r pethau mwyaf gobeithiol i mi ei glywed ers tro byd ym maes y canu pop Cymraeg.**

Pawb yn dylyfu gên ac yn syrthio i drymgwsg ar unwaith. Ydy, mae hi'n anodd ysgrifennu am record Gymraeg newydd mewn dull a fydd yn argyhoeddi neb o'i gwerth bellach: mae'r ansoddeiriau mwyaf clodforus ac eithafol yn cael eu tywallt yn hael ar ben pob offrwm newydd yn wythnosol bron, a chroesewir pob record hir newydd fel "trobwynt" yn y maes, yn ddieithriad.

Wna'i ddim gwastraffu geiriau felly, dim ond nodi un neu ddau o bethau a'm tarodd yn arbennig ynglŷn â'r record hon o'i chlywed am y tro cyntaf.

Yn gyntaf, record ddinesig yw hon, peth newydd iawn i record bop Gymraeg. Cafodd ei chreu, ei pherfformio a'i chynhyrchu gan ddinesydd o'r iawn ryw, sef Geraint ei hun; ei recordio yn gyfangwbl yng Nghaerdydd, yn Stiwdio Stacey Road; mae'r deunydd ei hun yn tarddu, i raddau helaeth, o fywyd y ddinas. Mae *Lawr yn y Ddinas* yn folawd i Gaerdydd, a *Merched Caerdydd* yn berl o deyrnged ddoniol i'w dinasyddion benywaidd; disgrifio un agwedd hyll ar fywyd dinesig a wna *Gwylio'r Byd ar y Teledu*, sef ei thuedd i ynysu unigolion mewn hunanoldeb dall. Mae'r gân ddirdynnol, *Lleisiau Gwallgofrwydd* i mi yn adlais o effaith ansicrwydd ac unigrwydd bywyd y ddinas ar feddwl ac ysbryd dyn.

Yn eilbeth — a hwyrach mai dyma'i rhinwedd bennaf o safbwynt gerddorol — ceir amrywiaeth anhygoel ar y record hon. Mae recordiau Cymraeg da iawn (a rhai gwych) wedi ymddangos yn y gorffennol, ond un bai sy'n gyffredin i'r rhan fwyaf ohonynt yw undonedd: y canwr tawel yn canu'n lleddf drwyddi draw, a'r grŵp trydanol yn un môr o sŵn o'r dechrau i'r diwedd. Mae 'na ganeuon bît ffantastig ar y record hon — fel *Gobaith Mawr y Ganrif, Lle Mae'r Bobl Wyllt yn Byw*, a R & R hwyliog *Merched Caerdydd* gyda phiano ysbrydoledig Geraint Walters yn y cefndir; mewn cyferbyniad llwyr cawn deimladrwydd, angerddol ar y naill law, a thawel ar y llall, y ddwy gân *Lleisiau Gwallgofrwydd* a *Pethau Brau*. Arddull *Country & Western* ddigri wedyn, yn gweddu i'r dim i ddychan *I've Arrived* — ac mae'n siwr mai *Lawr yn y Ddinas* yw'r gân *reggae* Gymraeg gyntaf!




Yn olaf, heb fwriadu bod yn anghwrtais, doedd gen i ddim syniad fod Geraint yn gallu canu cystal o'r blaen. Caiff gefnogaeth leisiol wych gan Heather a chan yr amryddawn Fones Bethan Miles, ac o safbwynt offerynnol, ni ellir canmol gormod ar waith gitar Phil Maynard, Osian Gwilym a Lincoln Carr, a drymiau Steve Keely a Robert Dodo Wilding: yn wir, mae'r safon gerddorol ar bob cân yn eithriadol o uchel.

Mae 'na wendidau. Mae'r cydbwysedd ar y gân gyntaf yn wael, ac mae hynny'n golygu fod y geiriau — sydd mor bwysig — yn anodd i'w deall. A wedyn... Gwendid*au* ddwedais i? Fedra'i ddim meddwl am un arall. Ewch adre i wrando ar y record hon eich hunain — ac yna dewch yn ôl i ddadlau. Os medrwch chi.

*SAIN 1022M — Geraint Jarman — 'Gobaith Mawr y Ganrif' — £2.75.*

"CRAIG YR OESOEDD"



'PERFECTOR' – nid yn unig yr enw a roddwn i'n staff cymwys, parod eu cymorth sy'n anelu at berffeithrwydd bob amser.

'PERFECTOR' yw enw technegol ein gwasg argraffu offset ddiweddaraf hefyd, peiriant sy'n argraffu'r ddwy ochr i'r ddalen ar yr un pryd.

Beth bynnag yw eich gofynion, penawdau llythyr personol neu 50,000 o gylchgronau, fe rydd ein gweisg modern, cyflym wasanaeth heb ei ail i chi am bris rhesymol.

Am amcangyfrif, yn rhad ac am ddim, cysyllter â Fred Howarth, CYHOEDDWYR CLEGLEN CYFYNGEDIG, 134 Heol Parc Ninian, Caerdydd. Teliffon: 28917.

# Vienna ar Sul y Blodau

*— darn o ddyddiadur a gadwyd gan WYNNE LLOYD pan ymwelodd â'r ddinas eleni.*

**Codi am saith gyda'r bwriad o fynd i'r Hofkapelle i glywed Côr Bechgyn Vienna'n canu'r gwasanaeth. Y ddinas yn dawel a'r gwanwyn yn dechrau blaguro. Cerdded drwy barc rhwng cerflun coffa Mozart yn ei farmor gwyn a Goethe yn ei ddu fel tae wedi'i naddu o lo caled. Cyrraedd yr Hofburg, calon ymerodraeth Habsburg, a chofio am Hitler yn sefyll ar yr oriel i wylio'r ddinas gaeth — ond syrthio wnaeth ei deyrnas yntau. Eto i gyd, mae'r gwasanaeth yng nghapel yr Hofburg yn dal i'w gynnal er mai gwasanaeth i'r cyhoedd ydy e bellach.**

Cynffon o bobl yno'n barod a hithau ond yn 8.15 a.m. Aros am dro bach yn sŵn prepian criw o Americaniaid ifanc. Toc dyma'r neges nad oedd yno docynnau ar ôl, dim ond sefyll heb weld. Wfft i hynny. Edrych ar drefn y gwasanaeth a gweld mai Missa Brevis gan Britten oedd i'w chanu. Well gen i glywed y côr hwn yn canu Haydn neu Schubert. Penderfynu mynd am San Steffan, yr Eglwys Gadeiriol.

Strydoedd yn dawel, yn lân. Dim sbwriel, dim ôl fandaliaeth dim graffiti — dim olion nos Sadwrn!

Yr Eglwys Gadeiriol — Stefanodom — yn ymgorfforiad o ddyenwch gwŷr Vienna i oroesi. Pawb isho byw a neb mwy na'r rhain a welodd ymosodiad ar ôl ymosodiad ar hyd y canrifoedd ond eto mae'r ddinas yn aros. Yr eglwys bigfain wedi tystio yn y fan hon ers canrifoedd... Mae'n siwr gen i nad ar ddamwain y bedyddiwyd hi ag enw Steffan. Os gellir dweud am ddinas iddi gael ei llabyddio gan ormeswyr dros y canrifoedd, gellir dweud hyn am Vienna.

Yr eglwys yn ferw o brysurdeb ysbrydol. Paratoi at offeren naw wrth y brif allor. Am unarddeg mae'r Uchel Offeren gyda'r Cardinal yn gweinyddu felly lled-uchel fydd hon. Eistedd ac aros. Sŵn cerdded, sŵn mwyaf amlwg hudolus ydy'r llafarganu sy'n dod o un ochr yr eglwys. Lleisiau gwragedd yn unig yn cydlafarganu ar un nodyn, fel nodyn bagbib. Haul y bore'n pefrio drwy ffenestri lliw ar un ochr i'r allor, pobl yn dal i gymryd eu lle. Y llafarganu'n cynyddu ac awr yr offeren ar fin taro.

Fel y deuai'r funud i ddechrau'n agosach roedd y goleuadau'n chwyddo'n byllau o oleuni. Pan beidiodd canu'r gwragedd roedd y goleuo wedi'i osod ac yna ennyd o dawelwch — pawb a phopeth wedi rhewi.

Llen y ddrama hon oedd cloch fechan a ganwyd unwaith — cododd pawb tra cerddai i mewn ac yna at flaen yr allor ddau offeiriad a dau gyw i weini. A dyna'r ddrama'n dechrau, oherwydd dyna beth ydy hi, drama.

Y gynulleidfa ddisgwylgar, y llwyfan o allor yn barod, ac i animeiddio'r cyfan daw'r chwaraewyr. Mae pawb yn gwybod y testun, mae popeth yn rhagosodedig ond eto mae'n newydd. Rhaid ei bod hi'n stori dda.

Clywed Almaeneg yn cael ei thraddodi a'i thrafod yn y gwasanaeth. Dyma'r datblygiad newydd. Llais yr offeiriad yn fwyn a chlir. Roeddwn i'n tueddu i gysylltu Almaeneg â bloeddi, iaith awdurdod militaraidd, gorchmynnol. Ond mwynder oedd yma. Ai Awstria ydy hyn? Un emyn a ganwyd, yr enwog "O Iesu Bendigedig" ar yr alaw draddodiadol. Pan oedd angen pontio ddefod dro i dro y cyfan wnâi'r organydd oedd amrywio ar y corâl. Canwyd pum pennill ar wahanol adegau'r gweithrediadau — canu unsain, cynulleidfaol. Ond am wn i mai'r geiriau oedd yn cyfri nid y canu ymwybodol. Cofio bod Saunders Lewis wedi dweud rywdro y dylid peidio â 'chanu' emynau mawr yr iaith ond eu dweud er mwyn i bobl ddod i sylweddoli beth oedd ystyr y geiriau.

Moment fwya arwyddocaol y litwrgi ydy'r cysegru. Gwelwyd hyn yn glir gan fod hen ŵr bach gwladaidd ei wedd a'i olwg yn mynd â'r blwch casglu o gwmpas. Gŵr hollol wahanol ei statws i gasglyddion yr eglwysi cadeiriol Anglicanaidd. Tlotyn oedd hwn. Sut bynnag mi ddaliodd ati nes canu'r gloch gysegru — ar hyn fe syrthiodd ar ei bengliniau ac yno yr arhosodd nes i'r cysegru orffen. Wedyn, yn ei flaen gyda'r blwch gan sibrwd rhywbeth wrth bob un.

Dirgelwch ydy'r ddrama ac mae'r eglwys yn meithrin y dirgel drwy gadw'r gweinyddwyr a'r credinwyr ar wahân, ac eto'n un. Mae'r llinell derfyn yn bod ar ris gynta'r allor — tu cefn iddi y digwydd popeth ac wedi i'r act orffen fe ddiflanna'r perfformwyr i ddirgelwch yr ymylon. Does dim ystyr i'r lle mewn gwirionedd ond pan fydd y ddrama ar waith O dro i dro ceir perfformiadau mwy datblygedig ac addurnedig — ond yr un ydy'r sgerbwd.

Unwaith eto rydw i'n gallu synhwyro'r gyfrinach yma sy gan etholigion, i ynysu'u hunain pan fo'r weithred ar waith. Mae mor gwbl wahanol i gapel ond mae na werth arbennig yn y drefn. Mae corff o gredo, corff o sgript hefyd ac mae'r gynulleidfa a'r perfformwyr yn datgan yn llafar ac yn gweithredu'n ymarferol.

Ffolineb ydy dibrisio'r ffurfioldeb. Am wn i bod ffurfioldeb capel wedi troi'n fwy o rwystr na dim. Mae'r parchus wedi cyrraedd, y tawelwch torfol mud, gwisgoedd y sêt fawr sydd rhwng gweinidog a phobl, nid grisiau allor, canu hwyliog a'r geiriau'n suddo dan donnau'r gân. Gwae ni o beidio gwybod y geiriau heb son am adnabod y Gair.

Wedi i'r offeren orffen yn swta roedd eraill yn cyrraedd at y nesa a dyna'r drefn am y bore. Gweld nifer o wragedd a phlant yn cario tusw o frigau cynffonnau-ŵyn-bach. Dyma'u blodau nhw — nid y blodau melyn ond y blagur mwyn.

Allan i'r awyr agored heibio i'r stondinau gwerthu cynffonnau-ŵyn-bach ac i gaffé yng nghysgod yr eglwys — gwydraid o win gwyn grisial oer. Bywyd gwâr.

CYMORTH CRISTNOGOL
BETHANIA, ABERTEIFI
Nos Wener, Awst 6ed
am 7.45 o'r gloch

EDWARD MORRIS JONES
yn arwain dwy awr o
**"HWYL A CHÂN"**
**gyda**
Elfed Lewis, pedwarawd y Wenallt a Chwmni Efail Isaf, Caerdydd yn Cynnwys Llinos Jenkins, Meinir Heulyn etc.

Tocynnau:- 50c
I'w cael ym Mhabell Cymorth Cristnogol ar faes yr EISTEDDFOD

## Chwyldro Robat Gruffudd

**Rhigymau catalogaidd yw llawer o'r cerddi hyn: mae yna duedd i ail-adrodd hyd at ddiflastod yma ac acw heb arwain i unrywle pendant; mewn mannau eraill, mae pentyrru profiadau a delweddau yn gallu cynnau'n gerdd.**

**Mae hyn yn digwydd gyda *Cryfder neu Wendid neu Rywbeth* sy'n rhoi darlun hawdd cydymdeimlo ag ef o wrthgyferbyniadau dryslyd natur dyn. Er nad yw dryswch yn nodweddu Robat: mae'n sicr iawn o'i hunan ac o'i Chwyldro ac y mae termau fel y Gwir, Cyfiawnder a Rhyddid yn britho'r tudalennau fel pe bae eu hystyr yn hunanamlwg a syml.**

**Anheg hwyrach byddai awgrymu y byddai *O fy Ego* (teitl y gerdd ar dud. 11) yn well teitl i'r gyfrol na *Tren y Chwyldro*, er cymaint y demtasiwn! Mae hwn yn gasgliad gonest yn ei naifrwydd a'i afiaith, ac yn hwyl i'w ddarllen oherwydd hynny. Cawn y Chwyldro'n ymagor yn llachar ac yn fyw, o dudalen i dudalen — y Chwyldro fel y'i gwelir drwy lygaid goddrychol a chwbl hyderus Robat Gruffudd.**

*"Tren y Chwyldro" Robat Gruffudd. Y Lolfa, pris 75c.*

---

*ENGLYN AR ÔL GWELD LLUN MOI PARRI YN* **Y CYMRO** *(yn gweithredu fel Archdderwydd yn Eisteddfod Ysgol Ifor Bach)*

*Ceir heb flew mewn papur newydd — y gwir;*
*Rhagorol Archdderwydd*
*Yw hwnnw sy'n Senghennydd —*
*I'r dim i 'Steddfod Caerdydd.*

T. ARFON WILLIAMS
Yr Eglwys Newydd

HTV CYMRU WALES

# O'R BRIFWYL YN ABERTEIFI

Dymuna HTV Cymru lwyddiant i Eisteddfod Y Dathlu. Eisoes cawsom y pleser o ffilmio pasiant cofiadwy plant Ysgol Gynradd Aberteifi. Cyflwynwyd copi o'r ffilm gan Adran Blant HTV Cymru i'r ysgol. Gellwch ei gweld ar y teledu ar y 1af Awst am 6.15p.m., ac yn Theatr Fach Y Maes am 4p.m. ddydd Llun, 2 Awst, ac am 3p.m. ddydd Mercher, 4 Awst.

Yn ystod yr wythnos fe fydd camerau HTV Cymru yn ffilmio ar y Maes ar gyfer rhaglen ddogfen Saesneg arbennig. Gobeithiwn y bydd y rhaglen hon yn gyfrwng i hysbysebu'r ŵyl led-led y byd.

Ar y maes, croesawn chi i'n Pabell Wylio Gyhoeddus. Gall y di-Gymraeg ddefnyddio'r Gwasanaeth Cyfieithu. Gwelwch liw a llun ein Pabell Blant. Byddwn yn helpu'r dysgwyr, ac yn croesawu gweithwyr yr Ysgolion Meithrin, a chwithau hefyd, wrth gwrs.

# RHAGLENNI O'R 'STEDDFOD

Cewch y gorau o Eisteddfod Aberteifi drwy gydol yr wythnos – Gwasanaeth Boreol o Faes yr Ŵyl am 10a.m. Awst 1af i Gymru a'r Rhwydwaith Teledu Annibynnol;

Nos Fawrth yr Eisteddfod am 10.30p.m. rhaglen arbennig gan Gwyn Erfyl. Holir R. Bryn Williams, yr Archdderwydd, a cheir trafodaeth rhwng Derec Llwyd Morgan, Alan Llwyd, Branwen Jarvis a Lenna Pritchard Jones ynglŷn â llyfrau Cymraeg newydd.

"Y Dydd" bob nos o nos Lun i nos Wener;

Penawdau'r Newyddion am 1.20p.m. o'r Maes bob dydd yn Gymraeg ac yn Saesneg;

Rhan helaeth o "Report Wales" bob nos o Faes yr Eisteddfod yn Aberteifi o nos Lun i nos Wener:

Rhaglen arbennig ddwyieithog am 6.30p.m. nos Fawrth hyd nos Wener; ac am 6.15p.m. ddydd Sadwrn:

Rhifyn arbennig o "Yr Wythnos" nos Lun yr Eisteddfod am 8.30p.m.

Byddwn yn teledu Seremoni'r Coroni ddydd Mawrth, y Cadeirio ddydd Iau, a Chroesawu'r Cymry ar Wasgar b'nawn dydd Gwener.

**O faes yr Eisteddfod ac o'r Ganolfan Deledu, Caerdydd**

# Noson Lawen yn y Pafiliwn

**Mae Clwb Rygbi Cymru Caerdydd, clwb sy'n chwarae yng Nghyngrair Caerdydd a'r Cylch, wedi llogi Pafiliwn Steddfod Aberteifi a'i chwe mil o seddi. Ar nos Ferch-er y Brifwyl fe fydda nhw yn trefnu Noson Lawen ac yn gobeithio llanw'r Pafiliwn enfawr. Ymhlith yr artistiaid sydd eisioes wedi cytuno i ymddangos y mae Ryan Davies, Ray Gravell — y chwaraewr rygbi cydwladol, Caleb, a Chôr Poliffonig Caerdydd. Y ddau gyflwynydd fydd Alun Williams ac R. Alun Evans o'r BBC.**

Clwb Rygbi Cymry Caerdydd yw'r mudiad preifat cynta'i gael caniatad i ddefnyddio Pafiliwn yr Eisteddfod. Yn Eisteddfod Caerfyrddin y gwnaed y cyswllt cynta' â swyddogion yr Eisteddfod Genedlaethol ac wedi misoedd o drafod fe roddwyd caniatad. Mae'n dipyn o gofled i glwb mor fach ond mae nhw'n hyderus y gellir cael llond lle.

Fe fydd y Clwb Rygbi yn amlwg ar Faes y Brifwyl yn gwerthu tocynnau ac yn trfnu arddangosfa, a allai fod yn un o uchafbwyntiau'r wythnos. Mae Clwb Rygbi Caerdydd, sy'n dathlu ei ganmlwyddiant eleni wedi cytuno i fenthyca rhai o drysorau'r clwb i Glwb Rygbi Cymry Caerdydd gan gynnwys esgidiau Barry John. Fe fydd pob math o bethau ar werth hefyd i ddynodi canmlwyddiant Clwb Rygbi Caerdydd ac fe ddaw nifer o sêr y bêl hirgron i helpu yn yr arddangosfa — pobl fel Gareth Edwards a dderbynnir yn aelod o'r Orsedd yn ystod yr wythnos.

Hwn fydd yr eildro i Glwb Rygbi Cymry Caerdydd i hybu'r gêm genedlaethol yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Fe drefnwyd arddangosfa debyg yng Nghaerfyrddin a chaed Noson Lawen mewn neuadd leol. Mae'r fenter eleni fodd bynnag, yn costio tair mil o bunnau i'r Clwb.

Carai'r Bwrdd Golygyddol gydnabod yn ddiolchgar gymorth ariannol Cymdeithas Gelfyddydau De-ddwyrain Cymru.

## YR URDD: Dosbarth Caerdydd

Daeth gweithgareddau pwyllgor dosbarth Caerdydd i ben am y tymor presennol gyda'r cyfarfod blynyddol ar 20 Mai 1976. Ail etholwyd Mr Garwyn Davies yn Gadeirydd, Mr Cyril Davies yn Is-Gadeirydd a Mr Alun Preece yn Drysorydd. Rhaid oedd sicrhau Ysgrifennydd newydd gan fod Catrin Davies wedi gadael yr ardal erbyn hyn, a llenwyd y bwlch hwn pan gytunodd Lowri Morgan i gymryd yr ysgrifenyddiaeth. Dymunwn yn dda iddi yn y gwaith.

Teimlai aelodau'r pwyllgor y byddai ymweliad yr Eisteddfod â'r Barri yn arwain at fwy o weithgareddau yn ystod y flwy-ddyn 1976/77, ac y dylid cefnogi ymdrechion arweinwyr yr adrannau trwy gynnal cwrs undydd ar ddechrau'r tymor nesaf. Wedi peth trafodaeth, penderfynwyd cynnal cwrs i bawb sy'n ymddiddori yng ngwaith yr Urdd ar y 24ain o fis Medi yn adeilad hen ysgol Bryntaf yng Ngabalfa. Bydd y gwaith o drefnu'r cwrs yn cael ei wneud ar y cyd gyda'r Awdurdod Addysg. Anfonir manylion pellach i'r ysgolion ddechrau mis Medi.

Penderfynwyd parhau gyda'r trefniant o gynnal nosweithiau agored i'r adrannau cynradd ddwywaith y mis. Bydd Rhaglen y Gaeaf 1976/77 yn cychwyn gyda Helfa Drysor ar Nos Lun, Medi'r 20fed am 4.30p.m. yn y Ganolfan. Manylion gan y Warden, Ian ap Dewi.

# Ffarwel y Telynor

Ar ôl amryfal weithgareddau'r flwyddyn, fe ddug "Miri Mai" ni at dannau telyn y cerddor-wyddonydd Mr A.D. Thomas, a materion y cyfarfod blyny-ddol. Penderfynwyd trafod y busnes i gyd ar ddechrau'r cyfarfod fel y gallai pawb ymlacio a mwynhau sylwadau'r telynor a seiniau'r delyn Cawsom ganddo gipolwg hynod o ddiddorol ar hanes ein hofferyn cenedlaethol, cipolwg a adlewyrchai ymchwil manwl a diddordeb oes mewn cerddoriaeth. Er gwaethaf y gwres a'r amser, gallem oll fod wedi gwrando'n hwy ar y darlithydd amrydd-awn hwn yn trin ei destun mewn ffordd mor wreiddiol. Ond y tu ol i bob gŵr llwyddiannus, medden nhw, mae yna wraig, a mawr yw ein diolch i Buddug, ein his-lywydd, am weithredu mor effeithiol uwchben popdy'r sleidiau!

Yn wir, mae ein diolch, fel cangen, i'r ddau hyn yn fwy nag y gellir ei fynegi yma a chwith iawn oedd gennym ddeall y noson honno eu bod am symud i Ddyfed pan fydd Mr Thomas yn ymddeol ddiwedd y flwyddyn. Fu 'na'r un gymwynas erioed yn rhy fach nac yn rhy fawr i'r un o'r ddau ei chyflawni, a hynny bob amser yn llawen heb feddwl am na thâl na chydnabyddiaeth. Hoffem, fel cangen, wrth ddiolch yn gyhoeddus i'r ddau fel hyn, ddymuno iddynt ddyddiau dedwydd a hiroes i fwynhau'r "pethe" yn Llandre pan ddaw'r amser.

Fe ddaeth ein gweithgare-ddau lleol ni i ben ym mis Mai, ond ar noson hafaidd hyfryd fe dyrrodd Merched y Wawr o Dde Morgannwg a Gwent yn un cwmni hapus i Graig y Parc i flasu croeso'r Creigiau ar Fehefin 25ain. Erbyn hyn, fe fagodd y Noson Sirol ei chymeriad arbennig ei hun yn ôl ei lleoliad — ac fe gofir yn hir am y wledd i'r llygad a'r glust yn ogystal â'r bwyd bendigedig a gafwyd yng Nghraig y Parc. Diolch i Gangen y Creigiau am eu croeso twymgalon, ac wrth longyfarch Y Barri ar gipio'r wobr gyntaf yn y gystadleu-aeth paratoi picnic modern yn null Kilvert, dyma guro cefn eich haelodau ni'n hunain am baratoi ymgais mor ymarferol a deniadol, ac ennill yr ail wobr.

Wedi elwch, tawelwch a chyfle i ymlacio dros wyliau'r haf. Galw heibio pabell Merched y Wawr yn y Sioe Amaethyddol yn Llanelwedd efallai, neu gyfarfod â ffrindiau yn y babell ar faes yr Eisteddfod yn Aberteifi cyn ail-afael yn y "pethe" *Nos Fawrth, Medi 14 am 7.30* yng Nghanolfan yr Urdd, Heol Conwy. Cofiwch ddod nôl atom y noson honno, ac i unrhyw un o'r rhyw deg sy'n byw yng Nghaerdydd ac a hoffai ymuno â ni o'r newydd — fe fydd llond lle o groeso yn Heol Conwy y noson honno. Am fanylion pellach, cysyllter ag unrhywun o aelodau'r pwyllgor.

(Gweler isod)

*Llywydd* Nia Hall Williams
*Is-Lywydd* Eiry Humphries
*Ysgrifennydd* Nia Vittle (ffôn 752522)
*Trysorydd* Alwenna Thomas
*Dosbarthydd Y Wawr* Enid Jones
*Trysorydd yr Ymgyrch Lyfrau* Mair Elvet Thomas

*DYMA FE*

*ELENI ETO*

**CALENDR YR URDD**
AR FFURFF POSTER HYFRYD
Medi 1976 — Awst 1977
12 mis am 12 ceiniog

Ar werth ar stondin yr Urdd ar faes yr Eisteddfod neu o Swyddfa'r Urdd, Aberystwyth

*HANFODOL I BOB CYMRO DA!*

## DINESYDD NEWYDD

**Ganed *Dinesydd* anrhydeddus ar Fehefin 15fed pan wnaeth Elin ei hymddangosiad yn Ysbyty Dewi Sant, Bangor. Mae Elin yn ferch i Norman Williams, cyn-olygydd y papur hwn, a'i wraig Olwen sy'n byw ym Mangor erbyn hyn, lle mae Norman yn gweithio i Gymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru. Dymuniadau gorau iddynt ill tri.**

**Mae ar Y DINESYDD angen cynrychiolydd hysbysebu rhan amser**

i weithio am gomisiwn

- Gwaith diddorol i rywun sydd am weithio ar y ffôn o'i gartref/chartref
- Mae arddull gyfeillgar ar y ffôn yn bwysicach na phrofiad blaenorol
- Os oes gennych ddiddordeb, ffôniwch Caerdydd 396262 os gwelwch yn dda

# O'R GWENITH I'R GRAWNWIN

## MAIR OWEN

### ar ei thaith drwy Rwsia yn ymweld â Siorsia



Tbilisi, prifddinas Siorsia, yw un o drefi hyna'r byd. Roedd pobl yn byw yno yn y trydydd mileniwm cyn Crist, ond prifddinas y wlad tan y 5ed Ganrif O.C. oedd Mtskheta; ar ôl hynny y daeth Tbilisi'n brifddinas. Cefais weld cryn dipyn o olion gwareiddiad diweddarach Siorsia wrth ymweld â llawer o'r hen fynachlogydd a'r hen eglwysi a geir yn coroni'r bryniau serth yng nghanol y mynydd-dir.

Agwedd arall ar wareiddiad Siorsia yw ei dawnsio gwerin traddodiadol, sy'n lliwgar dros ben. Mae'r dynion i gyd mewn du, bob un â'i gap ffelt du â thasel coch; mewn cyferbyniad, mae gwisgoedd y merched yn llifeiriant o liwiau llachar. Mae llawer o'r hen hen arferion, megis gwneud capiau ffelt, neu gladdu gwin mewn costreli pridd anferth yn y ddaear, wedi goroesi ym mhentrefi mynyddig y Gorllewin; felly hefyd y canu gwerin. Yn aml iawn, cenir y caneuon hyn gan grwpiau bychain (rhyw chwech o gantorion) o ddynion, a cheir *polyphony* arbennig yng nghanu'r dynion — ac yn siantio'r mynaich hefyd.

Cefais weld perfformiad gwych o "Caucasian Chalk Circle" Brecht yn ystod fy arhosiad yn Siorsia. Roedd y cynhyrchiad hwn eisoes wedi chwarae ym Mosco, ac roedd yn boblogaidd iawn ymhlith y bobl leol. Roedd y perfformiad ei hun yn iaith Siorsia, a bûm yn gwrando arno drwy *headphones* gan fod cyfieithad Rwsieg ar gael. Rhaid dweud fod arddull y cyfan yn atgoffa rhywun o ffilm "Cabaret" Liza Minelli.

Un pleser mawr oedd cael blasu bwydydd cwbl arbennig. Coffa da am un lle bwyta bach gwledig ar y ffordd i Mtskheta. Roedd hi'n bwrw tu allan, a'r lle'n stemio tu fewn: un stafell sgwâr, a'r rhan fwyaf o'r dynion ynddi yn gwisgo'r het Siorsiaidd nodweddiadol — fel "Dai cap" ddeg seis yn rhy fawr! Hen fenywod mewn du yn gweini; byrddau pren, stoliau anghelfydd, llestri pridd — yr un peth i bawb. Costrel bridd o win Siorsiaidd ar y bwrdd, a chwpwl o boteli o ddŵr mineral enwog Borzhomi (mae Kissinger *a* Ford yn ei yfed meddan nhw wrtha'i!). A'r bwyd: rhyw amlenni bychain o does wedi'i goginio a'i lenwi â chig; platiad o tarragon a phersli gwyllt, sbinais, radis, nionod a chennin; cacen gaws, bara Siorsia, caws Siorsia (sy'n debyg i un Groeg) a bowlen bridd o ffa coch mewn saws; gorffen efo shashlik! Pryd i'w gofio.

Ddiwrnod arall, bûm yn ymweld â stiwdio un o artistiaid mwyaf toreithiog Siorsia, yr arlunwraig Iancoshuili, sydd wedi teithio'n helaeth ym Mecsico a Chiwba. Mae'r stiwdio ar lawr uchaf yr adeilad ac roedd hi'n dechrau bwrw cenllysg fel marblis y tu allan pan gyrhaeddais yno; y tu fewn, oglau olew ym mhob man, a'r cynfasau mwyaf nodweddiadol o waith yr arlunydd yn llenwi pob wal yn yr ystafell anferth. Ninnau'n eistedd wrth hen fwrdd sgwâr yn sgleinio fel castan, yn bwyta gwahanol fathau o gnau, afalau, bara brith a siocled, ac yn yfed *liqueur* wedi'r wneud o gnau Ffrengig — o hen gostrel Tsineaidd wedi'i gwneud o arian, yn gywrain dros ben. Yr artist ei hun a wnaeth y ddiod; doedd hi ddim am gael unrhyw win cyffredin yn agos i'r lle, roedd yn rhaid i'r ddiod hefyd fod yn gampwaith creadigol!

Fe orffenais i y tro diwethaf drwy son am y cysylltiadau honedig sydd rhwng iaith Estonia a'r ieithoedd Celtaidd, ac yma yn Siorsia eto, fe ddeuthum ar draws rhagor o ddamcaniaethu ieithyddol diddorol. Yn ôl un ddamcaniaeth, mae iaith Siorsia yn un gwbl unigryw; fe berthyn i'r grŵp Kartveli o ieithoedd Ibero-Caucasian ac y mae felly yn un o ieithoedd byw hyna'r byd. Barn arall a fynegir yn awr yw mai'r un tarddiad sydd i iaith Siorsia ag sydd i iaith y Basg (un arall o ieithoedd dirgel Ewrop); mae'n debyg fod yna debygrwydd pendant rhwng rhai geiriau yn y ddwy iaith.

Dyna ddigon o ddamcaniaethu — a digon o lith am y tro. Mae gen i lawer mwy i'w ddweud, ond rhaid mynd ati i geisio rhoi trefn ar holl ddigwyddiadau'r pythefnos diwethaf a nodi pob agwedd yn fy llyfr nodiadau cyn i mi anghofio dim — a chyn dechrau ar y gwaith cyfieithu! Mae'r Estoniaid a'r Siorsiaid wedi gofyn i mi gyfieithu peth o'u llenyddiaeth hwy i'r Gymraeg hefyd, drwy roi cyfieithad gair am air i mi i'r Rwsieg — fe allai fod yn ddiddorol dros ben. Dwi ddim yn gwybod *sut* dwi'n mynd i gael amser i wneud pob dim — a siarad efo pobl, a gweld popeth sydd i'w weld! Does dim byd amdani ond dechrau cynllunio'r ymweliad nesaf....

MAIR OWEN

# Gwledda gyda Merched Caerdydd

Os bu 'na gymdeithas anffurfiol, ddigyfansoddiad erioed, Cylch Cinio'r Merched yw honno! Peidied neb â meddwl, serch hynny, ein bod ni'n gweithredu'n anghyfansoddiadol liw nos fel criw o Ferched Becca slawer dydd mewn rhyw westy diarffordd draw tua Rhiwbeina 'na!

Cwrdd unwaith bob deufis fyddwn ni, ar yr ail nos Iau yn y mis; cawn ystafell wedi ei neilltuo i ni a phryd o fwyd oer wedi'i baratoi. Byddwn yn gwahodd rhywun i'n hannerch wedi swper, a bydd trafodaeth anffurfiol yn dilyn, yn amlach na pheidio.

Y llynedd, daeth Michael Jones, y cyfreithiwr, atom ar ddechrau'r tymor, a wedyn Islwyn Jones (Gus) o'r Barri. Dro arall, sgwrs gan Mrs Minwel Tibbot ar hen eirfa cegin a choginio, a phawb yn cynnig termau o'i thafodiaith ei hun, gan fod 'na gynrychiolwyr o lawer ardal yng Nghymru yn perthyn i'r cylch. Fe gawsom noson bleserus dros ben yng nghwmni Mrs Barbara Williams, Siop *Antiques Unlimited*, Yr Eglwys Newydd, a'r noson honno, fe ddaethom â rhai o'n trysorau gyda ni, i gael yr arbenigwraig i roi barn (a phris!) arnyn nhw. A phwy well i gloi'r tymor wedyn na Mr Emrys Evans, pennaeth Banc y Midland yng Nghymru?

Y llywydd am y flwyddyn sydd newydd ddod i ben oedd Rhiannon Evans, tra'r oedd Iola James yn ysgrifennydd a Beti Pritchard yn drysorydd. Os oes arnoch chi awydd dod atom ni eleni, codwch y ffôn, neu anfonwch air at yr ysgrifennydd. Does dim tal aelodaeth ond fe gyst y noson £2 i chi — yn cynnwys pob dim. Yn anffodus, ni allwn ddanfon nodyn at bob aelod ynglŷn â phob cyfarfod eleni fel cynt, ond fe fydd yr ysgrifennydd yn gohebu â phawb ynglŷn â'r cyfarfod cyntaf gan obeithio cael ateb gan bob aelod. Mae'r esgid fach yn gwasgu ar bawb y dyddiau hyn!

Y gŵr dewr sy'n mynd i fentro atom nos Iau, Medi'r 9fed yw'r Dr Dafydd Huws ac fe fyddwn yn cwrdd yng Ngwesty Pantmawr (troi oddi ar Heol Pantmawr i mewn i Gae'r Wenallt a throi i'r chwith yn union wedyn). Mae e'n hen westy diddorol llawn cymeriad, digonedd o le i barcio a llond gwlad o groeso. Dyna ni! Fe'ch gwelwn ni chi ddechrau Medi — mae croeso i bawb, yn ddiwahan — mwya oll, gore oll.

D.R.E

Swyddogion 1976/77

*Llywydd* Joan Rees
*Trysorydd* Beti Pritchard
*Ysgrifennydd* Morfudd Entwistle, 31 Heol y Coed, Rhiwbeina.
Ffôn: 67630.

# Colofn yr Ysgolion Meithrin

Wrth gloi f'adroddiad fis Mehefin fe ddwedais, "Tybed sut chwa o wynt ddaw ar ein traws y mis nesa 'ma?" Temtio ffawd oedd dweud y fath beth, mae'n amlwg — gan na fu'r un chwa o wynt o gwbwl, dim hyd yn oed su o awel, yn llythrennol! Yn anffodus, ni fu chwa o awel i'm llonni yn fy ngwaith ychwaith ychwaith.

Nid oes arna'i eisiau gwneud y golofn hon yn un ddiflas felly gwell i mi gadw fy meddyliau i mi fy hun ac ymwrthod â'r demtasiwn o ddweud fy nghwyn. Dal yn ddigartref y mae'r cylchoedd newydd arfaethedig yn Llanrhymni, Y Tyllgoed a'r Eglwys Newydd. Y cyfan a ddyweda'i yw, "Ymholais, crwydrais mewn cri — och alar!"

Bu llawer o weithgarwch yn ystod yr wythnosau diwetha' — bore coffi gan Gylch y Crwys, Ffair yn Rhiwbeina, Sioe Ffasiynau yn y Barri, Miri Mehefin yn Llysfaen a Barbaciw yng nghartre Mr a Mrs John Hefin Evans er budd Cylch y Bontfaen. Dyma enwi dim ond rhai o'r gweithgareddau.

Gwyliau sydd o'm blaen a bydd yn dda i ni i gyd yn Ne Morgannwg gael seibiant a gorffwys. O fis Medi ymlaen bydd galw mawr am ein cefnogaeth i'r Mudiad Ysgolion Meithrin, Eisteddfod yr Urdd yn Y Barri a thorchi llewys i wthio cwch yr Eisteddfod Genedlaethol i'r dŵr.

"Geneth fach o Lŷn wyf fi," yn byw yn y brifddinas ers blynyddoedd ac yn dal i deimlo'n amal mai "Dyn dieithr wyf yma, draw mae 'ngenedigol fro!" Er hynny, rwyf yn dod yn fwy argyhoeddedig bob dydd mai yma yn y brifddinas a'r wlad o'i hamgylch y mae'r her a'r cyfle inni geisio adfer yr iaith. Nid fy Nghymraeg i a siaredir gan blant y Cylchoedd Meithrin, nid fy Nghymraeg i yw Cymraeg fy mhlant, yn anffodus, ac mae'n amlwg nad fy Nghymraeg i fydd Cymraeg y dyfodol. Mae'n chwith gen i feddwl bod tafodieithoedd ac idiomau'n diflannu a bod yr iaith yn prysur golli ei grymuster. Er hynny, mae Cymraeg plant y Sir yma'n well na dim Cymraeg o gwbl!

Ar ddiwedd blwyddyn ysgol y mae'n rhaid i mi gyfaddef bod gen i edmygedd tu hwnt tuag at rieni sy'n penderfynu, heb sill o Gymraeg eu hunain, eu bod am roi cyfle i'w plant gael addysg ddwyieithog. Golyga hyn ymdrech ac ymroddiad gan y rhieni, a chalonogol iawn yw clywed am gymaint o'r rhain sy'n mynychu dosbarthiadau Cymraeg ac sy'n cyd-ddysgu'r iaith efo'u plant. Hyderaf y bydd y newydd da am gael tair Ysgol Gymraeg yng Nghaerdydd yn fodd i ddenu mwy o deuluoedd di-Gymraeg i roi cyfle i'w plant feddu dwy iaith.

Erbyn y daw'r rhifyn yma o'r wasg bydd pob Cylch ac ysgol wedi torri am y gwyliau. Tybed a fu pob cylch ac ysgol mor lwcus â chael trip? Fe gafodd plant bach Cylch Llysfaen drip o'r ysgol rownd y gornel i gartref Mr a Mrs Kynric Lewis (lle cychwynodd y cylch cyn cael adeilad yn gartre) — i chwarae yn yr ardd, gweld y crwban ac yfed pop. Mae'r bererindod yma'n un flynyddol, mae'n debyg. Hir oes i'r crwban, ddweda'i!

Mae'n debyg y byddwn i gyd yn anelu trwyn y car am Aberteifi i'r Eisteddfod. Fel y gŵyr llawr, dyma fy Mecca i. Bydd yn lles i gorff ac enaid gael ymgolli am wythnos mewn Cymreictod naturiol ac rwy'n siwr y bydd yn hwb ac yn ysbrydiaeth inni i ddod yn ôl a wynebu problemau'r gaeaf.

Cofiwch daro heibio i babell y Mudiad Ysgolion Meithrin ar faes yr Eisteddfod. Croeso i bawb!

SHÂN EMLYN

## YN EISIAU

**Mae angen athrawes yn Ysgol Feithrin Gymraeg Penarth ar gyfer mis Medi. Os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch â Mrs Non Davies, "Cilcarw", 30 Heol Dinas, Penarth — rhif ffôn - 701334.**

UCAC

**UNDEB CENEDLAETHOL ATHRAWON CYMRU**

Undeb Athrawon sy'n cefnogi'r

**'Pethe' — bob amser**

*Ysgrifenner am fanylion llawnach at:*
*Gareth Miles, Trefnydd Cenedlaethol UCAC, 11 Heol Gordon, Caerdydd CF2 3AJ*




*Betsan Powys, Sioned Geraint, Llinos Williams a Manon Jenkins o Ysgol Gymraeg Bryntaf, Caerdydd yn ymddangos ar un o raglenni cyn-derfynnol* Stesion Cantamil *ar HTV Cymru (Gwener, Gorffennaf 30ain).*

## LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau i Eira a Keith Phillips, gynt o'r Creigiau, ar enedigaeth Steffan Aled ym mis Mehefin. Mae'r teulu wedi ymgartrefu bellach yn yr Hendy, ger Llanelli; mae Steffan Aled yn frawd i Sioned a Manon.

## SIAPWCH HI!

Ar ôl llwyddiant anhygoel dosbarth cadw'n heini y dynion y gaeaf diwethaf, pleser gennym nodi y bydd dosbarth tebyg i ferched yn dechrau yn Radur ym mis Medi — ar nos Iau, rhwng 7.30 a 9.00p.m.

**MAE TOCYNNAU AR GAEL YN AWR ar gyfer y TREN ARBENNIG I LUNDAIN ar HYDREF 16. Cysyllter ag unrhyw un o swyddogion Pwyllgor Ysgolion Meithrin De Morgannwg neu Tegwen Evans, 54 Fidlas Road, Llanishen, Ffôn: 754559.**

# CYMRU'R FRO, 1976

Am yr ail flwyddyn yn olynol, cynhaliwyd arddangosfa ar agweddau ar fywyd Cymraeg y Fro yn Neuadd Eglwys y Bedyddwyr, Heol Stanwell, fel rhan o Ŵyl Penarth eleni. "Cymry'r Fro" oedd enw'r arddangosfa, a oedd yn cynnwys arolwg darluniadol o gymdeithasau aelodol amrywiol Cyngor Cymraeg Penarth a'r ardal, yn ogystal ag arddangosfa o ymgeisiadau buddugol Eisteddfod Bro Morgannwg eleni. Yn ychwanegol, ceid arddangosfa o un agwedd ar orffennol y Fro — ei melinau gwynt braf.

Un agwedd arbennig o'r arddangosfa oedd y ddarpariaeth a wnaethpwyd ar gyfer ymwelwyr o San Pol de Léon yn Ffrainc, gefelldref Penarth, a oedd ym Mhenarth yn ystod yr ŵyl. Rhoddwyd croeso ac arweiniad iddynt yn Gymraeg, Saesneg, Llydaweg a Ffangeg.

B.R. KEITCH

# DYDDIADUR DYN DWAD

## 3. CHATEAU NEUF DE PAPE (GEOS)

**Y peth sy'n handi am Gaerdydd ydi bod chi'n medru mynd am fwy o êl wedi i'r pybs gau heb draffath o gwbwl. Yn Gynarfon odd ginoch chi ddewis — Clyb Cash ne'r Chinks. Rwan mae nhw wedi cau Cash a mae 'na ffeit yn y Chinks bob yn ail nos Sadwrn. Dyna ichi reswm arall pam bod boi ifanc fatha fi s'isho dipyn o leiff yn well-off yn fan hyn, am dipyn eniwe.**

Ran amla bydd hogia'r *Ely* yn mynd i un o ddau le — *Casinos* sydd yn y docs ne *Papajios* yn ganol dre. Mae *Casinos* yn dywyll ar diawl, yn fudur a swnllyd a mae rhaid ichi gael taxi i fynd lawr yna. Os byswn i'n cal rise, fyswn i'n prynu car bach. Ond ma 'na êl yn y *Casinos* am ddim yn bad o brisia. Gwin a petha bach gewch chi yn *Papajios*.

"Peint o lager plîs," medda fi tro cynta 'rioed es i yno. Does 'na byth feild mewn unrhyw glwb, dwi 'di ffeindio. Dydi o ddim yn costio digon, a nhwtha isho'ch sginio chi de?

"You can have wine or a short," medda fodan yn gwta.

"Bottle of wine ta," me fi. Rhatach na fesul glas.

"What kind?"

"Any kind," medda fi, dallt dim amdanyn nhw.

"Red?"

"Yes."

"£2 please."

"I only want one," medda fi, ond odd y blydi thing yn ddwy sgrîn am botal! Gneud chi drw'ch trwyn ia, ond dwi'n gwbod bod fi wedi gweld poteli 'run fath yn *Tesco* rownd gongal am lai na punt.

Sbio drw'r twllwch a'r mŵg sigarets i weld o'n i'n nabod rywun. Welish i Sabrina 'Pobl y Cwm' yn dawnsio hefo rywun. Fysun i ddim wedi meindio autograph i ddangos iddyn nhw adra mod i'n cwarfod y big nobs ar y scene Caerdydd 'ma, ond o'n i ofn mynd ati hi. Welish i Wayne Harris yno hefyd ond ddim dyna pwy ydi o go iawn achos mae o'n canu yn Edward H. Davies hefyd.

Odd 'na neb o hogia'r Ely, cachwrs, yn fodlon dwad efo fi achos na nos Iau odd hi. O'n i wedi bod yn cario homar o blydi Axminsters trwm o'r stores i fyny i'r showroom yn Howells drwy'r dydd ac ro'n i'n bwriadu ffonio Mr Huxley'r boss yn bora eniwe i ddeud bod y 'nghefn i'n giami. Felly lawr â'r êl.

"Martha Morris con!"

"Ydw i'n ych 'nabod chi?"

"Iesu! Co' fatha gogor ia?"

"Gron bach! O'n i ddim yn nabod chdi hefo'r mwstash coch 'na."

"Ti'n licio fo? Trendi ia?" Odd Martha run clas â fi'n rysgol Sul Moreia. Glywsoch chi am y tân 'na dwrnod o'r blaen? Odd hi'n yr 'A' yn'r Ysgol a finna dipyn bach is, ia?

"Lle ti'n cadw Gron? Odd dy fam yn deud wrth mam bod chdi lawr yma."

"Dwi'n byw'n Roath yndw, a fydda i'n mynd i'r *New Ely* jest bob nos. Byth yn gweld chdi yno chwaith."

"Ti'n licio yno? Dipyn bach o ddymp yndi?" medda hi, a chodi'i thrwyn. A dyma fi'n sbio arni hi yn 'i ffrog floda hir a'i gwallt jest so a'i lot o fêc-up a llygada lliw du a meddwl ella na fysa hi ddim yn ffitio i fewn yn yr Ely chwaith.

"Ysgol Sul a Band o' Hope wedi dy droi di'n erbyn lysh ia?" medda fi, smalio bach.

"O na. Fyddan ni'n mynd am ddrink bach ryw noson ne ddwy yr wythnos. *Conway*. Ti wedi bod yna?"

"Do unwaith," medda fi, ond nesh i ddim cymryd arna noson mor uffernol o boring gesh i yno.

Ddoth 'na Luned a Gwenan a Sian heibio. Tichyrs bob wan, yn byw hefo Martha yn Llandaff. Ond o'n i ddim yn ffansio dim un ohonyn nhw.

"Ma' Gron yn dod o Gaernarfon," medda Martha wrthyn nhw.

"O ie. Ble rych chi'n dysgu?' medda Luned.

"Ddim tichyr ydw i." Pam bod nhw i gyd yn meddwl mod i'n dichyr?

"O!" medda Gwenan, "ble chi'n ymino yn y bywyd Cwmrag?"

"Paid â phoeni, del. Dwi wedi ffeindio'r hogia," medda fi.

"Mae o'n chwarae cardia yn y dafarn bob nos," medda Martha, a mi chwerthon nhw a twt twtian.

"Be dach chi'n neud 'da?" medda fi, dipyn bach yn embarasd.

"Wel," medda Gwenan, jest â marw isho rywun ofyn iddi hi, dwi'n meddwl, "ni'n yn côr. Côr yr Aelwyd a Chôr Godre'r Garth, beiti dwy nei dair noson yr wthnos. Ich chi'n canu? Na? A mae dosbarth nos i ddysgwyr 'da dwy ohono ni. A ni'n itha diwid yn yr Aelwid, ondyn ni ferched? A mae Sian yn Ysgrifenyddes y Gangen Leol o'r Blaid, ond witi Siân?"

Ddeudodd Siân ddim byd, dim ond gwenu a gwasgu'i handbag yn nyrfys. Odd dim isho iddi fod yn nyrfys, 'cos beth amdana fi yn gorod gwrando ar gang o fodins clyfar fel hyn yn deud wrtha i sut oeddan nhw'n cadw Cymraig yn fyw yn Gaerdydd. Neud i fi deimlo'n giami uffernol, bod gin i ddim talent i neud dim byd. Ar wahan i chwara gêm ddim yn bad o ddarts ne rownd o snooker go lew 'de.

"Iesu, genod," me' fi, "o'n i'n meddwl mod i'n gneud yn o lew ffeindio gang o hogia Cymraig i gael hwyl hefo nhw fel byswn i adra yn dre. Dwi ddim digon da i'ch llefydd chi eniwe."

"Dere nawr Gronw," medda Luned. Gronw? Be' 'di hwnnw? "Mae'r Urdd yn agored i bawb w!"

Urdd, myn uffar i! Fush i 'rioed yn perthyn i'r Urdd. Do'n i ddim am ddeud dim achos bod fi'n gwbod bod Martha wedi bod yn aelod ers pan odd hi'n ddim o beth. Ond odd hi'n byw yn St David's Road hefo'r bobol fawr. A dyna chi pwy odd hogia'r Urdd yn Gynarfon. Plant blaenoriaid a tichyrs a ballu. Dawnsio gwerin a rhyw falu cachu felly. Sisis. Fedrwch chi weld hogia Sgubs yn gneud ryw rigmarol fela? Dwi'n cofio Miss Parry Welsh yn rhoid rhyw gomics Cymraig i'r clas.

"Dim ond i blant yr Urdd," medda hi, a John Bach Nain a finna'n tynnu stumia ar ein gilydd. A dwi'n cofio llond bys ohonyn nhw'n mynd o'r Maes i'r camp yn Llangadog ac yn canu caneuon stiwpid wrth fynd. Lawr ar lan y môr, ia? Ond do'n i ddim isho ypsetio'r genod, a ddeudish i ddim byd.

Ofynish i Martha be odd hi'n neud nos Sadwrn, ond odd hi'n mynd i barti caws a gwin yn Rhiwbeina. A'r wythnos wedyn? Prysur iawn, rhywbeth ymlaen bob nos.

"Sud wyt ti'n medru sbario awr i ddwad i fan hyn?" medda fi wrthi'n sbeitlyd.

"Noson dda nos Iau yma. Criw da o'r BBC yn dwad yma."

Ac ro'n i'n gwbod mae yn fanno rodd Martha Morris yn chwilio am fachiad ac nid yn ganol hogia dre.

Yn sydyn, dyma 'na lasiad o'r piso coch yn mynd lawr ffordd rong a dyma fi'n tagu arno fo, ac i lawr ar y mat a fo, hannar drwy nhrwyn i a hannar drwy ngheg i. Mi heglodd y genod rhag i ffrogia llaes nhw chael hi. Jest as well, ond ddeuthon nhw ddim yn ôl chwaith pan ddoth 'na horwth o blydi bownsar mawr heibio a gafal yn 'y ngwar i.

"Out!"

"Uffar o berig, mêt," medda fi'n Susneg. "Newydd gyrradd ydw i ar ôl talu chweig i ddwad i mewn a talu dwy sgrîn am y gwin sur uffernol 'ma." Ond rodd o'n benderfynol, ac achos bod fi'n benderfynol hefyd, ath petha'n flêr do? Cyn ichi ddeud Jack Robinson o'n i allan ar 'y nhin ar y pafin hefo'r uffar mawr yn 'y nghicio fi drosta. Ro'n i'n gleisia byw.

A finna'n dal i riddfan ar lawr, mi ddoth 'na ddau foi allan o'r *Papajios*. Y manijer a Gareth Connolly o'r *Ely*. Do'n i ddim yn gwbod bod o yno. Roddan nhw'n ffraeo,

"...and call your animal off. I'm in the CID and I could get this place shut down tomorrow if I wanted to."

Mi droiodd y manijer yn neis i gyd, ac mi helpodd fi i fyny a gneud moshiwns llnau'r llwch off 'y nghot i. Rownd y gongol rodd y clyb 'ma, *The Revolution*, lle lladdodd ryw fochyn o fownsar un o hogia Caerdydd ryw fis yn ôl. Mae 'na enw newydd ar y lle rwan — *Smileys*.

Mi gerddodd Connolly a fi adra drw'r dre gan rannu'r botal win ddoth o allan hefo fo.

GORONWY JONES



# O'r felin ban i fwthyn y Gwehydd

**Agorwyd Amgueddfa'r Diwydiant Gwlân, Dre-fach Felindre, Dyfed yn swyddogol i'r cyhoedd ar Orffennaf 17, 1976 gan y Cynghorwr Carey George, OBE, YH, Cadeirydd Cyngor Sir Dyfed.**

Y mae'r Amgueddfa wedi ei lleoli mewn adeiladau melin wlân sy'n gweithio, Melin Cambrian, yng nghanol un o ardaloedd pwysicaf y diwydiant gwlân yng Nghymru. Y mae'r adeiladau yn nodweddiadol o'r math o ffatrioedd gwlân mawr a oedd yn gyffredin yn y rhan yma o Orllewin Cymru yn ystod ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg a chwarter cyntaf y ganrif hon.

Amcan yr Amgueddfa yw egluro hanes y diwydiant gwledig pwysicaf yn ei fro bwysicaf.

Neilltuwyd rhan o'r arddangosfa yn yr Amgueddfa ar gyfer adrodd stori gyffrous Dre-fach Felindre fel canolfan y diwydiant cynhyrchu brethyn. Ni ellir deall cymeriad a phersonoliaeth yr ardal heb wybod rhywbeth am y diwydiant a oedd unwaith yn cyflogi rhan go dda o'r boblogaeth. Ceisiwyd diogelu awyrgylch "y ffatri" yn yr adeiladau ac wrth osod yr arddangosfa, buwyd yn ofalus i newid cyn lleied â phosib ar yr adeiladwaith.

O fewn milltir i'r Amgueddfa, gellir gweld pob agwedd ar ddatblygiad y diwydiant o'r felin ban i fwthyn y gwehydd, a'r bwriad yw cynllunio taith gerdded i'r safleoedd o bwys yn nyffrynnoedd Bargod ac Esger.

Yn ychwanegol at gyflwyno darlun o ddatblygiad Dre-fach Felindre fel canolfan cynhyrchu brethyn, cyflwynir hefyd ddarlun o hanes techneg gynnar y diwydiant gwlân yn y gwahanol rannau o Gymru. Hyd at ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, y rhan holl bwysig o'r diwydiant yng Nghymru oedd Powys, ac y mae nifer o'r adrannau yn yr arddangosfa yn egluro hanes y fasnach frethyn yn Llanidloes, Y Drenewydd a'r Trallwng. Ar y llawr isaf, gosodwyd y peiriannau trymion ac yn eu plith ddarnau sy'n arwyddocaol yn natblygiad y diwydiant gwlân. Y mae pob un darn a oedd yn ymwneud â'r gwahanol brosesau — cribo a nyddu, gwau a gorffen brethyn, — wedi eu gosod yn y fath fodd fel y gellir dilyn y broses o gynhyrchu brethyn o'i dechrau i'w diwedd.

Ceisiwyd hefyd egluro hanes y Diwydiant Gwlân Cymreig yn ei gyd-destun heddiw drwy neilltuo rhan dda o'r arddangosfa ar gyfer y diwydiant gwlân modern a'i gynnyrch.

Yn ystod y blynyddoedd nesaf, y bwriad yw datblygu'r Amgueddfa ymhellach drwy estyn yr arddangosfa, troi rhan o'r adeiladau yn stiwdio, datblygu taith gerdded drwy'r pentre a threfnu bod yr ysgolion yn medru defnyddio'r Amgueddfa ar gyfer astudiaethau'r amgylchedd.


**AMGUEDDFA GENEDLAETHOL CYMRU**
**AMGUEDDFA WERIN CYMRU**
**Amgueddfa'r Diwydiant Gwlân**
**Dre-fach Felindre, Dyfed**

Casgliad helaeth ac anarferol o offer a pheiriannau a ddefnyddid i gribo, nyddu, ystofi, gwau a phannu'r brethyn.

Arddangosfa o luniau a gwrthrychau prin sy'n olrhain datblygiad y diwydiant gwlân yng Nghymru o'r Oesoedd Canol hyd at heddiw.

Arddangosfa o gynnyrch lliwgar nifer o'r melinau sy'n gweithio ar hyn o bryd.




Gweithredir yr Amgueddfa gan Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, Caerdydd CF5 6XB. Ffôn (0222) 561357.




*Cyn gapten yr MCC TONY LEWIS gyda'r bat wedi'u harwyddo gan aelodau tim criced Gorllewin yr India a gyflwynodd fel gwobr raffl i bwyllgor lleol Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Y Barri a'r Fro.*

## PEINTIO FFENESTR I'R URDD

Y mae llawer o gyfeillion Canolfan yr Urdd wedi cynnig eu gwasanaeth i'r Ganolfan o bryd i'w gilydd. Ar hyn o bryd, rydym wrthi'n ceisio ysgafnhau tipyn ar olwg y lle drwy dreulio llawer o amser yn peintio'r tu fewn, ac wedi dechrau ar y drysau o'r tu allan.

Hoffem feddwl y byddai'n bosibl peintio'r holl ffenestri oddi allan cyn y gaeaf — pwy o blith darllenwyr y Dinesydd ddaw i'n helpu drwy beintio un ffenestr? Dyma fyddai disgwyl i chi'i wneud: glanhau'r gwaith coed, rhoi cot isaf o baent ac yna cot o "glos" gwyn i orffen y gwaith.

Dyw'r ffenestri ddim yn fawr, a phe ceid ryw 30 o wirfoddolwyr, byddai'r lle yn edrych yn llawer harddach erbyn y gaeaf. Ga'i apelio'n daer ar unrhyw un sy'n teimlo fel rhoi help llaw ymarferol i'r Ganolfan i fynd ati ar unwaith i beintio. Hoffwn pe baech yn cysylltu â mi cyn neu ar ôl gwneud y gwaith. Diolch yn fawr iawn am eich cymorth. (Rhif ffôn: 754559)

JOHN ALBERT EVANS
Cadeirydd


Hen Lyfrau
yn eisiau

HEN NEU AIL-LAW
HEFYD CYLCHGRONAU A
HEN LYFRAU PLANT

**SIOP Y PETHE**
ABERYSTWYTH
7120


*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor Y Dinesydd, Argraffwyd gan Gyhoeddwyr Cleglen Cyf, 134 Ffordd Parc Ninian, Caerdydd; ffôn: 28917.*
*Hysbysebu gan Gyhoeddiadau ap Dafydd Cyf, 55 Heol Eglwys Gadeiriol Isa, Caerdydd; ffôn: 396262.*